Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Canllaw i gofrestru

## Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Ionawr 2025

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025 WG38348 ISBN Digidol 978-1-83876-592-7

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad ... 4
2. Pa wasanaethau y mae angen eu cofrestru? ... 7
3. Mathau o Ddarparwyr ... 17
4. Unigolion Cyfrifol ... 20
5. Gwneud cais ... 23
6. Asesu'r cais ... 25
7. Penderfyniadau ynglŷn â chofrestru ... 29
8. Hysbysiadau ac Amrywiadau Ar-lein ... 32

Atodiad 1. Nodyn Ymarfer ar ddehongli gofal a chymorth ... 34
Atodiad 2. Coeden Benderfynu ar gyfer Gwasanaethau Cartrefi Gofal ... 38
Atodiad 3. Coeden Benderfynu ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Cartref ... 39
Atodiad 4. Canllawiau ar Gyfarwyddyd neu reolaeth barhaus gofal a chymorth mewn Gwasanaethau Cymorth Cartref ... 40
Atodiad 5. Ardaloedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn perthynas â Gwasanaethau Cymorth Cartref ... 44
Atodiad 6. Holiadur Addasrwydd Unigolyn Cyfrifol ... 46
Atodiad 7. Canllawiau Deddfwriaethol a Statudol ... 47
Atodiad 8. Crynodeb o'r wybodaeth a'r dogfennau sydd eu hangen yn y ffurflen gais ... 49
Atodiad 9: Fframwaith Penderfynu ynghylch Cofrestriad ... 53
Atodiad 10. Y Broses Sylwadau ... 61
Atodiad 11. Gwasanaethau Rheoleiddiedig o dan y Ddeddf ... 66
Atodiad 12. Eithriadau Cofrestru ... 70
Atodiad 13. Cymhwysedd Unigolyn Cyfrifol (a.21 o'r Ddeddf) ... 76
Atodiad 14. Prawf person addas a phriodol (a.9 o'r Ddeddf) ... 77
Atodiad 15. Canllaw ar actifadu eich cyfrif AGC Ar-lein ... 79
Atodiad 16. Gwybodaeth a dogfennau sydd eu hangen ar gyfer ceisiadau i amrywio ... 81
Atodiad 17. Cyfweld ag Unigolion Cyfrifol ... 85
Atodiad 18. Matrics penderfynu o ran a ddylid cynnal ymweliad cofrestru safle ai peidio ... 86
Atodiad 18a. Asesiad o leoliad ar gyfer cartrefi i blant sy'n derbyn gofal ... 89
Atodiad 19. Goblygiadau cofrestru ag AGC i sefydliadau sy'n is-gontractio'r gwaith o ddarparu gofal i drydydd parti ... 91
Atodiad 20. Rhestr termau ... 93

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Diben cofrestru

Fel rheoleiddiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru, un o swyddogaethau craidd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw sicrhau mai dim ond y bobl hynny y bernir eu bod yn addas ac sy'n debygol o ddarparu gofal o ansawdd da a gaiff eu cofrestru i wneud hynny.

Mae'r broses gofrestru yn borthor i'r rhai sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig, ac mae'n gam cyntaf tuag at ddiogelu pobl sy'n defnyddio gwasanaethau rhag cael gofal gwael.

Mae'r gofrestr rydym yn ei chadw yn gofnod cyhoeddus o'r rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal yng Nghymru, a'r unigolion sy'n gysylltiedig â nhw.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi ein dull o gofrestru, gan gynnwys yr egwyddorion a'r prosesau rydym yn eu dilyn wrth arfer ein pwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae'r egwyddorion canlynol yn llywio ein gwaith, yn unol â'n gwerthoedd:

- rhoi pobl yn gyntaf
- gweithredu ar sail gwybodaeth
- bod yn ymatebol ac yn seiliedig ar risg
- cydweithio
- cefnogi gwelliannau ac arloesi
- myfyrio a dysgu

Isod ceir eglurhad o'r hyn y mae pob un o'n hegwyddorion arweiniol yn ei olygu yn ymarferol.

**Rhoi pobl yn gyntaf: mae llais a llesiant pobl wrth wraidd ein gwaith, a ategir gan ddull seiliedig ar hawliau.**

Rydym yn eirioli dros hawliau pobl ac yn ceisio adborth gan bobl am eu profiad a'r canlyniadau y mae'n eu helpu i'w cyflawni. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant, eu teuluoedd a'r staff sy'n gweithio ynddynt.

Rydym yn mynd ati i geisio adborth gan ddefnyddio ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn parhau i annog staff i rannu arferion cadarnhaol a chodi pryderon.

Mae hyn yn llywio'r ffordd rydym yn cynllunio arolygiadau ac yn cyfrannu at ein proses ehangach o gasglu gwybodaeth.

**Gweithredu ar sail gwybodaeth: caiff ein gwaith ei lywio gan ddata a gwybodaeth.**

Rydym yn casglu data a gwybodaeth, ac yn eu dadansoddi a'u rhannu. Mae hyn yn llywio ein gweithgarwch arolygu ac yn ein galluogi i ddeall tueddiadau a themâu er mwyn llywio dulliau gweithredu Llywodraeth Cymru a phartneriaid.

**Bod yn ymatebol ac yn seiliedig ar risg: rydym yn gweithio mewn ffordd amserol a chymesur wedi'i chynllunio ac yn seiliedig ar risg.**

Rydym yn blaenoriaethu gweithgarwch arolygu ar sail dadansoddiad o risg. Drwy hyn, rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn gymesur wrth sicrhau gwelliannau lle mae eu hangen fwyaf.

**Cydweithio: rydym yn gwrando, yn rhannu gwybodaeth ac yn cydweithio'n agos ag eraill.**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydberthnasau cadarnhaol ac ymddiriedaeth. Drwy ein cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a grwpiau o gynrychiolwyr, byddwn yn rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda a phryderon. Drwy gydgysylltu ein gweithgarwch, gallwn helpu i leihau achosion o ddyblygu ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant.

Rydym hefyd yn cydweithio ag arolygiaethau eraill i ddatblygu gweithgarwch arolygu sy'n defnyddio dull systemau, gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pob rhan o'r system yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

**Cefnogi gwelliannau ac arloesi: rydym yn defnyddio ein gwybodaeth a'n pwerau i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant i wella, ac rydym yn annog ffyrdd newydd o weithio.**

Rydym yn cyfathrebu er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ymarfer cadarnhaol.

**Myfyrio a dysgu: rydym yn neilltuo amser i fyfyrio ar bob agwedd ar ein gwaith a dysgu ohoni, ac i addasu ein dull gweithredu lle bo angen.**

Rydym wedi addasu i ffyrdd newydd a hyblyg o weithio a byddwn yn parhau i brofi ffyrdd newydd o weithio, ym mhob agwedd ar ein gwaith. Byddwn yn ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gallwn ei wella.

Mae cynnal hawliau pobl wrth wraidd ein gwaith. Rydym yn ystyried amcanion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a 'Cynllun Hawliau Plant' Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u nodi ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010 a'r Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru (2014).

Mae erthyglau perthnasol y CCUHP, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010, wedi'u hymgorffori yn ein fframweithiau arolygu. Bydd arolygwyr yn ystyried y ffordd y mae darparwyr yn hyrwyddo hawliau pobl, er mwyn sicrhau bod gan blant ac oedolion lais, eu bod yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch, a'u bod yn cael eu helpu i wireddu eu llawn botensial.

**Mwy na geiriau**

Mwy na geiriau yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol a gyhoeddwyd yn 2016.

Gall pawb sydd yn gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol wneud gwahaniaeth trwy ofyn i'w hunain "Beth allai wneud i wella darpariaeth iaith Gymraeg a hyrwyddo diwylliant Cymraeg?"

Rôl AGC i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant:

Pan yn ymgeisio mae angen i bob darparwr gynnwys gwybodaeth am lefel yr iaith Gymraeg yn y ddarpariaeth gofal o fewn eu Datganiad o Ddiben.

Yn ystod y cyfweliad person addas hefo'r Unigolion Cyfrifol / Personau, fe fyddwn yn holi sut mae nhw fel arweinwyr, yn mynd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant yn y gwasanaeth

Mwy na Geiriau | Arolygiaeth Gofal Cymru

**Rhestr termau**

Rydym wedi defnyddio'r derminoleg ganlynol yn gyson yn y canllawiau hyn:

**"Darparwr gwasanaeth"** – yr endid cyfreithiol a gofrestrwyd i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

**"Gwasanaeth(au) rheoleiddiedig"** – unrhyw rai o'r mathau o wasanaethau a ddiffinnir o dan y Ddeddf, fel gwasanaeth cartrefi gofal neu wasanaeth cymorth cartref. Ceir rhestr lawn o wasanaethau rheoleiddiedig yn Atodiad 11 i'r canllawiau hyn.

**"Gwasanaeth(au)"** – gwasanaeth unigol. Yn achos cartrefi gofal, cartref gofal fyddai hwn, a ddarperir mewn lleoliad penodol, er enghraifft Suncare Care Home, Caerdydd. Yn achos gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaeth unigol fyddai hwn, a ddarperir mewn ardal benodol, er enghraifft Suncare Domiciliary Support Service Cwm Taf.

**"Endid cyfreithiol"** – unigolyn neu sefydliad sydd â hawliau a rhwymedigaethau cyfreithiol.

Ceir Rhestr Termau lawn yn Atodiad 20.

## 2. Pa wasanaethau y mae angen eu cofrestru?

Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n darparu "gwasanaeth rheoleiddiedig" o dan y Ddeddf gofrestru â ni. Y gwasanaethau rheoleiddiedig yw:

- Gwasanaethau cartrefi gofal
- Gwasanaethau llety diogel
- Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- Gwasanaethau cymorth cartref
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Gwasanaethau maethu
- Gwasanaethau lleoli oedolion
- Gwasanaethau eirioli
- Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig

Mae'r diffiniadau o'r gwasanaethau rheoleiddiedig wedi'u nodi yn Atodlen 1 i Ddeddf Reoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac yn Atodiad 11 i'r canllawiau hyn.

Cyn cyflwyno cais i gofrestru gwasanaeth rheoleiddiedig, dylai darparwr ystyried y diffiniadau a'r eithriadau canlynol.

### 2.1 Gwasanaethau cartrefi gofal

Mae gwasanaeth cartref gofal yn darparu llety, ynghyd â gwasanaeth nyrsio neu ofal, i unigolyn/unigolion oherwydd eu bregusrwydd neu eu hanghenion.

Mae "gofal" yn golygu anghenion a thasgau corfforol dyddiol person sy'n derbyn gofal a'r prosesau meddyliol sy'n gysylltiedig â'r tasgau neu anghenion hynny, er enghraifft bwyta, ymolchi, a chymryd meddyginiaeth a chofio bwyta, ymolchi a chymryd meddyginiaeth. Mae ein Nodyn Ymarfer ar y dehongliad o Ofal a Chymorth yn Atodiad 1 yn nodi rhai o'r gweithgareddau sy'n debygol o ddod o dan y diffiniad o ofal mewn cartref gofal.

Nid yw gwasanaeth "nyrsio" wedi'i ddiffinio yn y Ddeddf, ond yn y cyd-destun hwn, mae'n golygu darparu gofal, neu gynllunio, goruchwylio neu ddirprwyo gofal fel rhan o gynllun a baratowyd ar gyfer yr unigolyn sy'n derbyn gofal, naill ai gan awdurdod lleol, bwrdd iechyd neu ddarparwr gwasanaeth.

Nid yw gwasanaeth sy'n darparu cymorth yn unig yn bodloni'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal. Mae ein Nodyn Ymarfer ar y dehongliad o Ofal a Chymorth yn Atodiad 1 yn nodi rhai o'r gweithgareddau sy'n debygol o ddod o dan y diffiniad o gymorth ac, felly, sy'n debygol o beidio â bodloni'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal.

Nid oes angen i gynlluniau y cyfeirir atynt fel "byw â chymorth" neu "gofal ychwanegol" gofrestru fel gwasanaeth cartref gofal, ar yr amod bod y gofal yn cael ei ddarparu o dan drefniadau contractiol ar wahân i'r rheini ar gyfer lletya'r person. Bydd angen i ni ystyried y trefniadau hyn yn ofalus er mwyn sicrhau nad oes angen i wasanaeth cartref gofal gofrestru. Bydd angen i ddarparwr y gofal a'r cymorth ystyried a oes iddo gofrestru fel gwasanaeth cymorth cartref.

Mae ein Coeden Benderfynu ar gyfer Gwasanaethau Cartrefi Gofal yn Atodiad 2 i'r canllawiau hyn yn nodi rhai o'r ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a yw gwasanaeth yn dod o dan y diffiniad o Wasanaeth Cartref Gofal.

**Eithriadau**

- Nid yw **ysbytai a gwasanaethau rheoleiddiedig eraill**, fel canolfannau preswyl i deuluoedd, gwasanaethau llety diogel a llety a drefnir fel rhan o wasanaeth lleoli oedolion, yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal. Lle y caiff gofal nyrsio ei ddarparu a lle bo'r llety yn eiddo i un o ymddiriedolaethau'r GIG, Bwrdd Iechyd Lleol neu Weinidogion Cymru at ddibenion eu swyddogaethau o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ceir eithriad rhag cofrestru.
- Mae **seibiannau byr i oedolion** (18 oed a throsodd) lle y caiff llety a gwasanaeth nyrsio neu ofal ei ddarparu am lai nag 28 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, wedi'u heithrio. Mae hyn yn golygu na all y gwasanaeth fod yn weithredol am 28 diwrnod neu fwy dros unrhyw gyfnod o 12 mis. Gall hyn gynnwys 28 diwrnod yn olynol neu nifer o gyfnodau dros 12 mis sy'n creu cyfanswm o lai nag 28 diwrnod.
- Mae **ysgolion** wedi'u heithrio o'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal, oni bai eu bod yn darparu neu'n bwriadu darparu llety, ynghyd â gwasanaeth nyrsio neu ofal, i o leiaf un plentyn dros gyfnod sylweddol o amser. Y cyfnod dan sylw yw 295 diwrnod neu fwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis o fewn cyfnod o 24 mis. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod 2015-2017, os darparodd ysgol ofal a llety i blentyn am 305 diwrnod neu fwy rhwng mis Medi 2015 a mis Medi 2016, byddai hyn yn bodloni'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal.
- Mae **prifysgolion a'r sector addysg bellach** wedi'u heithrio o'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal oni bai eu bod yn darparu llety, ynghyd â gofal, i fwy na 10% o'r holl fyfyrwyr sy'n cael addysg a llety.

Wrth benderfynu a ydynt wedi'u heithrio ai peidio, byddwn fel arfer yn ystyried nifer y myfyrwyr dros gyfnod o 12 mis, yn hytrach nag ar ddiwrnod penodol.

Mae sefydliad yn y sector addysg bellach yn golygu sefydliad a gynhelir gan gydweithrediad addysg bellach, neu sefydliad a ddynodwyd felly gan orchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.

Mae llety ynghyd â gwasanaeth nyrsio neu ofal a ddarperir fel rhan o **gydberthynas deuluol neu bersonol** heb unrhyw fudd ariannol wedi'i eithrio o'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal. Diffinnir cydberthynas deuluol neu bersonol fel:

a) cydberthynas deuluol sy'n cynnwys cydberthynas rhwng dau berson sydd:
    i) yn byw yn yr un cartref, ac
    ii) yn trin ei gilydd fel pe baent yn aelodau o'r un teulu
b) cydberthynas bersonol yw cydberthynas rhwng neu ymhlith ffrindiau
c) mae ffrind i berson (A) yn cynnwys person sy'n ffrind i aelod o deulu A

Mae hyn yn cynnwys unrhyw ofal a chymorth a ddarperir gan riant, perthynas neu riant maeth i blentyn.

Dim ond os darperir gofal i unrhyw blentyn am fwy na 15 awr mewn cyfnod o 24 awr ar 28 o achlysuron dros gyfnod o 12 mis y mae **gwasanaeth gwarchod plant** neu **wasanaeth gofal dydd plant**, sydd wedi'i gofrestru â ni o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, yn dod o dan y diffiniad o wasanaeth cartref gofal. Nid yw’r eithriad hwn yn gymwys os darperir y gwasanaeth yn gyfan gwbl neu’n bennaf i blant anabl. Mae gwahanol wasanaethau sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol wedi'u heithrio rhag cofrestru, fel hostelau mechnïaeth cymeradwy, hostelau prawf cymeradwy neu sefydliad i droseddwyr ifanc.

Mae llety a gofal a ddarperir i blant 16 oed a throsodd i'w galluogi i **hyfforddi neu fwrw prentisiaeth** wedi'u heithrio o'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal. Nid yw’r eithriad hwn yn gymwys os darperir y gwasanaeth yn gyfan gwbl neu’n bennaf i blant anabl.

Mae llety a gofal a ddarperir i blant at ddibenion **gwyliau neu weithgaredd hamdden, chwaraeon, diwylliannol neu addysgiadol**, wedi'u heithrio o'r diffiniad. Nid yw'r eithriad hwn yn gymwys yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Lle y caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn gyfan gwbl neu’n bennaf i blant anabl oni bai bod Darparwr y Gwasanaeth wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig am y trefniadau ymlaen llaw; neu
- Lle y caiff y gwasanaeth ei ddarparu i unrhyw blentyn am fwy nag 28 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, oni bai mai dim ond i bobl ifanc dros 16 oed y darperir y gwasanaeth.

Mae llety a gofal a ddarperir i blentyn neu grŵp o frodyr a chwiorydd yng **nghartref y person ei hun** am gyfnod heb fod yn fwy nag 28 diwrnod mewn cyfnod o 12 mis wedi'u heithrio rhag cofrestru.

**Gwasanaethau Gofal Canolraddol Awdurdodau Lleol**

Nid yw gwasanaeth gofal canolraddol Awdurdod Lleol yn "Wasanaeth Gofal Cartref" o dan y Ddeddf. Mae gwasanaeth gofal canolraddol Awdurdod Lleol yn cyfeirio at wasanaeth sy'n darparu llety, ynghyd â gwasanaeth nyrsio neu ofal, i oedolion.

Nid yw'r eithriad hwn yn gymwys oni bai bod y canlynol yn wir:

- yr Awdurdod Lleol sy'n gwbl gyfrifol am ddarparu'r gofal canolraddol,
- caiff y gofal canolraddol ei ddarparu am gyfnod heb fod yn fwy nag 16 wythnos ar y tro i unrhyw oedolyn penodol

## 2.2 Gwasanaethau llety diogel

Mae *"gwasanaeth llety diogel"* yn darparu llety at ddiben cyfyngu ar ryddid plant mewn safle preswyl yng Nghymru lle y darperir gofal a chymorth i'r plant hynny.

Nid oes unrhyw eithriadau o'r diffiniad hwn.

## 2.3 Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd

Mae canolfan breswyl i deuluoedd yn cynnwys llety a ddarperir i blant a'u rheini lle:

(a) y caiff galluedd y rhieni i ymateb i anghenion y plant a diogelu eu llesiant ei fonitro neu ei asesu, a

(b) y rhoddir cymaint o ofal a chymorth i'r rhieni ag yr ystyrir yn angenrheidiol.

Yn y cyd-destun hwn, mae "rhiant" yn cyfeirio at unrhyw berson sy'n gofalu am blentyn.

**Eithriadau**

Darperir y llety i blant a'u rhieni mewn **ysbyty, hostel neu loches cam-drin domestig**.

**I'r oedolion** y darperir y llety a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau eraill **yn bennaf** ac mae'r ffaith bod plant yr unigolion hynny yn bresennol hefyd yn ychwanegol at brif ddiben y llety.

## 2.4 Gwasanaethau cymorth cartref

Mae gwasanaeth cymorth cartref yn darparu (neu'n gwneud trefniadau i ddarparu) gofal a chymorth i bobl na allant wneud hynny drostynt eu hunain oherwydd eu bregusrwydd neu eu hanghenion, a hynny yn eu cartrefi. Nid yw hyn yn cynnwys yr angen i gael gofal a chymorth sy'n deillio'n gyfan gwbl o'r ffaith bod person yn ifanc iawn.

Mae'r gwasanaeth rheoleiddiedig hwn yn darparu llety byw â chymorth a llety gofal ychwanegol. Rhaid i ddarparwyr y mathau hyn o wasanaethau sicrhau bod y trefniadau contractiol sydd ganddynt ar waith gyda'r unigolion sy'n defnyddio eu gwasanaethau ar wahân i unrhyw drefniadau cytundebol mewn perthynas â'r llety a ddarperir.

Mae “gofal” yn golygu anghenion a thasgau corfforol dyddiol person sy'n derbyn gofal a'r prosesau meddyliol sy'n gysylltiedig â'r tasgau neu anghenion hynny, er enghraifft bwyta, ymolchi, a chymryd meddyginiaeth a chofio bwyta, ymolchi a chymryd meddyginiaeth.

Ystyr “cymorth” yw cwnsela, cyngor neu help arall, a ddarperir fel rhan o gynllun a luniwyd ar gyfer y person sy’n cael cymorth naill ai gan awdurdod lleol, darparwr gwasanaeth  neu berson arall sy'n darparu gofal a chymorth i'r person. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda thasgau fel siopa a glanhau.

Mae ein Nodyn Ymarfer ar y dehongliad o Ofal a Chymorth yn Atodiad 1 yn nodi rhai o'r gweithgareddau sy'n debygol o ddod o dan y diffiniad o ofal a chymorth. Bydd gwasanaeth sy'n darparu cymorth yn unig wedi'i eithrio o'r diffiniad o wasanaeth cymorth cartref.

Mae ein Coeden Benderfynu ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Cartref yn Atodiad 3 i'r canllawiau hyn yn nodi rhai o'r ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a yw gwasanaeth yn dod o dan y diffiniad o Wasanaeth Cymorth Cartref.

Wrth wneud cais i gofrestru, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth cymorth nodi'r ardal ddaearyddol lle maent yn bwriadu darparu'r gwasanaeth. Mae'r ardaloedd daearyddol hyn yn dilyn olion traed y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 5. Daw pob ardal ddaearyddol yn un o amodau eich cofrestriad ac yn wasanaeth unigol ar ddibenion arolygu.

**Eithriadau**

Nid oes angen i wasanaethau sy'n **darparu nyrsys cofrestredig** i unigolion lle maent yn byw gofrestru fel gwasanaeth cymorth cartref.

Mae **gofal nyrsio** a ddarperir **gan nyrs gofrestredig** wedi'i eithrio o'r diffiniad.

Os yw **Bwrdd Iechyd Lleol** yn darparu gofal a chymorth i unigolion fel rhan o'r trefniadau i ddiwallu eu hanghenion gofal nyrsio, nid oes angen iddo gofrestru.

Mae **Cynorthwywyr Personol** wedi'u heithrio rhag cofrestru ar y sail eu bod yn gweithio'n gyfan gwbl o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y person sy'n cael gofal neu drydydd parti cysylltiedig. Ystyr trydydd parti cysylltiedig yw:

(a) unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn sy'n cael gofal a chymorth
(b) unigolyn ag atwrneiaeth neu awdurdod cyfreithlon arall i wneud trefniadau ar ran yr unigolyn sy'n cael gofal a chymorth

(c) grŵp o unigolion a grybwyllir naill ai yn (a) neu (b) sy’n gwneud trefniadau ar ran dim mwy na phedwar unigolyn a enwir sy'n cael gofal a chymorth
(d) ymddiriedolaeth a sefydlwyd er mwyn darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn a enwir

Mae **Asiantaethau Cynorthwywyr Personol** (gan gynnwys trefniadau cydweithredol) wedi'u heithrio ar yr amod eu bod yn gweithredu'n gyfan gwbl at ddiben cyflwyno unigolion sy'n darparu gwasanaethau cymorth cartref i unigolion a all fod am gael y gwasanaethau hynny, ac nad ydynt yn chwarae unrhyw rôl barhaus yng nghyfarwyddyd neu reolaeth y gofal a'r cymorth a ddarperir. I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn asesu hyn, gweler ein canllawiau “Cyfarwyddyd neu reolaeth barhaus gofal a chymorth mewn Gwasanaethau Cymorth Cartref” yn Atodiad 4.

Mae gwasanaethau sy'n darparu **nyrsys cofrestredig** yn gyfan gwbl er mwyn cyflawni gweithgareddau gofal nyrsio gydag unigolion yn eu cartrefi eu hunain wedi'u heithrio rhag cofrestru.

Mae gwasanaeth sy'n darparu gofal a chymorth i **bedwar neu lai o unigolion a enwir** ar unrhyw un adeg wedi'i eithrio rhag cofrestru. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau cydweithredol sy'n cyflogi gofalwyr i ddarparu gofal a chymorth i bedwar neu lai o unigolion a enwir.

Nid yw gwasanaethau sy'n darparu **cymorth yn unig** yn wasanaethau cymorth cartref. Fodd bynnag, os caiff cymorth ei ddarparu fel rhan o becyn ehangach sy'n cynnwys darparu “gofal”, nid yw hyn wedi'i gynnwys yn yr eithriad.

Mae gofal a chymorth a ddarperir fel rhan o **gydberthynas deuluol neu bersonol** heb unrhyw fudd ariannol wedi'u heithrio o'r diffiniad o wasanaeth cymorth cartref. Diffinnir cydberthynas deuluol neu bersonol fel:

a) cydberthynas deuluol sy'n cynnwys cydberthynas rhwng dau berson sydd—
    i) yn byw yn yr un cartref, ac
    ii) yn trin ei gilydd fel pe baent yn aelodau o'r un teulu
b) cydberthynas bersonol yw cydberthynas rhwng neu ymhlith ffrindiau
c) mae ffrind i berson (A) yn cynnwys person sy'n ffrind i aelod o deulu A

Mae hyn yn cynnwys unrhyw ofal a chymorth a ddarperir gan riant, perthynas neu riant maeth i blentyn.

Mae asiantaethau cyflogaeth sy'n **cyflenwi gofalwyr i wasanaethau rheoleiddiedig eraill** wedi'u heithrio rhag cofrestru.

Mae person sy'n rheoli **carchar neu sefydliad carcharu tebyg arall** wedi'i eithrio o'r diffiniad os yw'n darparu gofal a chymorth i'r unigolion sy'n cael eu cadw yno. Fodd bynnag, os caiff gofal a chymorth eu darparu gan wasanaeth cymorth cartref, bydd angen i'r gwasanaeth hwn gofrestru â ni.

## 2.5 Gwasanaethau Maethu

Gwasanaeth Maethu yw unrhyw wasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan unrhyw berson ar wahân i awdurdod lleol, sy'n cynnwys:

- lleoli plant gyda rhieni maeth awdurdodau lleol
- arfer swyddogaethau mewn perthynas â lleoliad o'r fath

Ystyr "rhiant maeth awdurdod lleol" yw unrhyw berson a awdurdodwyd yn unol â'r Rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdodau lleol a wnaed o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu Ddeddf Plant 1989.

Nid oes unrhyw eithriadau o'r diffiniad hwn.

## 2.6 Gwasanaethau Mabwysiadu

Gwasanaeth Mabwysiadu yw gwasanaeth a ddarperir yng Nghymru naill ai gan:

- sefydliad nid er elw sy'n "gymdeithas mabwysiadu", neu
- "asiantaeth cymorth mabwysiadu"

Mae'r diffiniad o gymdeithas mabwysiadu ac asiantaeth cymorth mabwysiadu wedi'u nodi yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

"Cymdeithas mabwysiadu" yw corff y mae ei swyddogaethau yn cynnwys gwneud trefniadau ar gyfer mabwysiadu plant.

Mae "Asiantaeth cymorth mabwysiadu" yn darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu, er enghraifft:

- cwnsela, cyngor a gwybodaeth
- cymorth i rieni sy'n mabwysiadu, plant wedi'u mabwysiadu, a phersonau cysylltiedig mewn perthynas â threfniadau cyswllt rhwng plentyn wedi'i fabwysiadu a rhiant biolegol neu berthynas i'r plentyn wedi'i fabwysiadu
- gwasanaethau y gellir eu darparu mewn perthynas ag anghenion therapiwtig plentyn sy'n deillio o gael ei fabwysiadu
- cymorth i sicrhau bod y berthynas rhwng plentyn a'i riant biolegol yn parhau, gan gynnwys:
    - hyfforddiant i'r rhiant biolegol i'w alluogi i ddiwallu unrhyw anghenion arbennig y plentyn sy'n deillio o gael ei fabwysiadu,
    - gofal seibiant*
- cymorth os bydd rhywbeth yn tarfu ar drefniant mabwysiadu neu leoliad neu os bydd risg o hynny, gan gynnwys:
    - cyfryngu,
    - trefnu a chynnal cyfarfodydd i drafod achosion o darfu ar drefniadau mabwysiadu neu leoliadau

- help i bersonau wedi'u mabwysiadu sydd wedi cyrraedd 18 oed gael gafael ar wybodaeth am y broses o'u mabwysiadu neu hwyluso cyswllt rhwng y personau hynny a'u perthnasau**
- cymorth i berthnasau personau wedi'u mabwysiadu sydd wedi cyrraedd 18 oed gael gafael ar wybodaeth am y broses fabwysiadu neu hwyluso cyswllt rhwng y personau hynny a'r person wedi'i fabwysiadu
- gwasanaethau i alluogi grwpiau o blant wedi'u mabwysiadu, rhieni sy'n mabwysiadu a rhieni biolegol neu warcheidwaid blaenorol plentyn wedi'i fabwysiadu i drafod materion sy'n gysylltiedig â'r broses fabwysiadu.

* Lle y caiff llety ei ddarparu fel rhan o “ofal seibiant”, rhaid i'r llety hwnnw gael ei ddarparu gan neu ar ran awdurdod lleol o dan adran 81 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu gan sefydliad gwirfoddol o dan adran 59 o Ddeddf Plant 1989.

** Ystyr ”perthynas” yw unrhyw berson a fyddai'n perthyn i'r person wedi'i fabwysiadu, oni bai ei fod wedi'i fabwysiadu, drwy waed, gan gynnwys perthynas drwy hanner gwaed neu briodas.

**Eithriadau**

Mae gwasanaeth a ddarperir mewn perthynas â mabwysiadu **gan gyfreithiwr**, wrth gyflawni gweithgarwch cyfreithiol, wedi'i eithrio.

Nid oes angen i wasanaethau sy'n galluogi grwpiau o bobl i drafod **materion yn ymwneud â mabwysiadu** gofrestru. Gall y bobl sy'n cymryd rhan yn y grwpiau hyn fod yn blant wedi'u mabwysiadu, rhieni sy'n mabwysiadu a rhieni genedigol neu warcheidwaid blaenorol.

Mae **gofal seibiant** a ddarperir i blentyn wedi'i fabwysiadu neu riant sy'n mabwysiadu gan **wasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref** sydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, wedi'i eithrio.

Mae **gofal seibiant** a ddarperir i blentyn wedi'i fabwysiadu gan **warchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd** sydd wedi'i gofrestru o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, wedi'i eithrio.

Nid oes angen i unigolyn sy'n darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu **o dan gontract** â gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig neu awdurdod lleol, gofrestru.

Mae'r **cyrff/personau** canlynol wedi'u heithrio:

- awdurdodau lleol
- Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol
- Y Cofrestrydd Cyffredinol

## 2.7 Gwasanaethau Lleoli Oedolion

Darperir gwasanaeth lleoli oedolion at ddibenion lleoli oedolion gydag unigolyn yng Nghymru o dan gytundeb gofalwr. Cytundeb gofalwr yw cytundeb sy'n caniatáu i unigolyn ddarparu llety (yn ei gartref) ynghyd â gofal a chymorth i hyd at dri oedolyn.

Mae gwasanaeth lleoli oedolion yn cynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer recriwtio, hyfforddi neu oruchwylio'r unigolion hynny.

Nid oes unrhyw eithriadau o'r diffiniad hwn.

## 2.8 Gwasanaethau Eirioli

Darperir Gwasanaeth Eirioli er mwyn cynrychioli barn plant neu bersonau mewn perthynas â'r canlynol:

- plant sy'n gwneud neu sy'n bwriadu gwneud sylwadau i awdurdodau lleol o dan a.174 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu
- personau sy'n bwriadu gwneud sylwadau i awdurdodau lleol o dan a.176 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu
- eu helpu i gynrychioli eu barn mewn perthynas â'u hanghenion gofal a chymorth.

### Eithriadau

Mae gwasanaeth a ddarperir gan gyfreithiwr, wrth gyflawni gweithgarwch cyfreithiol, wedi'i eithrio rhag cofrestru.

Mae cymorth a ddarperir mewn perthynas ag achosion teuluol gan un o **Swyddogion Achosion Teuluol Cymru (CAFCASS)** wedi'i eithrio o'r diffiniad.

Mae cymorth a ddarperir gan **Gomisiynydd Plant Cymru**, neu gan aelod o'i staff, wedi'i eithrio.

Nid oes angen i berson nad yw wedi ac nad yw'n bwriadu darparu eiriolaeth i fwy na **phedwar person** mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, gofrestru.

Mae eiriolaeth a ddarperir gan **berthynas neu ffrind** y person y caiff sylwadau eu gwneud neu y bwriedir gwneud sylwadau ar ei ran, wedi'i heithrio. Ystyr perthynas yw rhiant neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (boed hynny drwy briodas neu bartneriaeth sifil), tad-cu/taid neu fam-gu/nain, llys-riant, rhiant maeth neu ddarpar fabwysiadwr y caiff y plentyn ei leoli gydag ef.

## 2.9 Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig

Mae gwasanaeth preswyl ysgol arbennig yn darparu llety ynghyd â gwasanaeth gofal neu nyrsio mewn ysgol arbennig yng Nghymru i ddisgyblion yr ysgol.

**Eithriadau**

Ond ni fydd llety ynghyd â gwasanaeth gofal neu nyrsio a ddarperir mewn ysgol arbennig yng Nghymru i ddisgyblion yn wasanaeth preswyl ysgol arbennig os bydd yn cael ei ddarparu mewn–

- man lle y caiff gwasanaeth cartref gofal ei ddarparu
- man lle y caiff gwasanaeth llety diogel ei ddarparu
- mewn ysbyty.

Gweler atodiad 12 am ragor o wybodaeth am Eithriadau

## 3. Mathau o Ddarparwyr

Mae amrywiaeth o endidau gwahanol a all gofrestru i ddarparu gwasanaeth. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys rhestr o endidau cyfreithiol y dylai darparwyr ei defnyddio i nodi'r math o endid cyfreithiol y maent yn ei gofrestru. Mae'r rhestr wedi'i nodi isod.

### 3.1 Unigolyn

Gall unigolyn gofrestru i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig fel unig fasnachwr. Bydd cofrestriad darparwr gwasanaeth yn enw'r unigolyn ei hun.

### 3.2 Cyrff Corfforaethol

**Cwmni Cyfyngedig**

Mae cwmni cyfyngedig yn fath o strwythur busnes sy’n endid cyfreithiol yn ei rinwedd ei hun. Gall cwmnïau cyfyngedig fod yn gyfyngedig drwy gyfranddaliadau neu drwy warant, a rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau. Yn y ddau achos, gall y cwmni ymrwymo i gontractau yn ei enw ei hun, ac mae'n gyfrifol am ei weithredoedd, ei gyllid a'i rwymedigaethau ei hun.

Mae'n rhaid bod gan gwmni cyfyngedig o leiaf un cyfarwyddwr.

Os yw cwmni yn un o is-gwmnïau rhiant gwmni neu gwmni daliannol, rhaid i'r endid cyfreithiol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth gofrestru â ni. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y cwmni sy'n ymrwymo i gontractau â chomisiynwyr ac unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, sy'n cyflogi'r staff ac sydd â pholisi yswiriant mewn perthynas â'r gwasanaeth a ddarperir.

**Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus (“CCC”)**

Math o gwmni cyfyngedig yw CCC, y mae rhwydd hynt i'r cyhoedd brynu a gwerthu ei gyfranddaliadau. Mae'n rhaid i CCC fod wedi'i gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau, ac mae'n rhaid bod ganddo o leiaf ddau gyfarwyddwr ac ysgrifennydd.

**Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (“PAC”)**

Corff corfforaethol yw PAC, ac mae'n endid cyfreithiol ar wahân i'w aelodau. Mae PAC wedi'i hymgorffori drwy gofrestriad â Thŷ'r Cwmnïau.

Mae aelodaeth PAC yn cynnwys y rhai hynny a ymrwymodd i'r ddogfen ymgorffori ac unrhyw un arall sydd wedi dod yn aelod ers hynny drwy gytundeb â'r aelodau presennol.

**Cwmni Elusennol**

Mae cwmni elusennol wedi'i gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau (fel cwmni) a chyda'r Comisiwn Elusennau fel ei endid cyfreithiol ei hun. Drwy feddu ar statws corfforaethol, gall cwmni elusennol ymrwymo i gontractau yn ei enw ei hun, ac mae'n gyfrifol am ei weithredoedd, ei gyllid a'i rwymedigaethau ei hun. Fel cwmni cyfyngedig, bydd gan yr elusen gyfarwyddwyr ac aelodau.

**Sefydliad Corfforedig Elusennol ("SCE")**

Sefydliadau elusennol sydd â'u hunaniaeth gyfreithiol eu hunain yw SCEau. Gallant ymrwymo i gontractau yn eu henw eu hunain ac mae ganddynt atebolrwydd cyfyngedig sy'n diogelu aelodau ac ymddiriedolwyr rhag colledion ariannol. Mae SCEau wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Elusennau.

Mae dau fath o strwythur llywodraethu ar gyfer SCEau.

- SCE Sylfaen – yr ymddiriedolwyr yw unig aelodau'r sefydliad
- SCE Cyswllt – mae gan y sefydliad hwn aelodau ac ymddiriedolwyr

### 3.3 Awdurdodau Lleol

'Cyrff' corfforaethol yw awdurdodau lleol, a sefydlwyd o dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

### 3.4 Byrddau Iechyd Lleol (BILlau")

'Cyrff' corfforaethol yw BILlau, a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

### 3.5 Cyrff corfforaethol eraill

Mae gwahanol fathau eraill o gyrff corfforaethol, fel cwmnïau anghyfyngedig a Chymdeithasau Buddiannau Cymunedol, a all ymrwymo i gontractau yn eu henw eu hunain ac sy'n gyfrifol am eu gweithredoedd, eu cyllid a'u rhwymedigaethau eu hunain.

Os nad yw'r math o gorff corfforaethol rydych yn gwneud cais i'w gofrestru wedi'i gynnwys yn y rhestr uchod, dylech ddewis "Corff corfforaethol arall" ar y ffurflen gais.

### 3.6 Partneriaethau

Mae partneriaeth yn cynnwys dau unigolyn neu fwy sy'n cytuno i gydweithio dros fenter busnes a rennir. Mae'r unigolion (partneriaid) yn rhannu elw a rhwymedigaethau'r bartneriaeth. Bydd pob partner wedi'i restru o dan amodau cofrestru darparwr gwasanaeth.

Os bydd partner presennol yn gadael y bartneriaeth gofrestredig neu bartner newydd yn ymuno â hi, bydd hyn fel arfer yn creu partneriaeth newydd, sy'n endid cyfreithiol newydd. Gall Darparwyr Gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru fel partneriaeth fyfyrio ar y newidiadau hyn drwy wneud cais i amrywio eu hamodau cofrestru, yn hytrach na bod yn rhaid i'r endid cyfreithiol newydd gyflwyno cais i gofrestru. Ceir gwybodaeth am sut i wneud hyn yn Adran 8 o'r canllawiau hyn.

Er nad yw'n ofynnol yn gyfreithiol i bartneriaeth feddu ar gytundeb partneriaeth, bydd angen i ni fod yn fodlon ar y trefniadau llywodraethu sydd ar waith.

## 3.7 Cyrff anghorfforedig

### Pwyllgor

Grŵp o bobl yw pwyllgor, sy'n dod ynghyd i geisio cyflawni nod cyffredin, yn aml ar ran sefydliad mwy. Pan fydd pwyllgor yn gwneud cais i gofrestru â ni, bydd angen i ni fod yn fodlon bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith.

### Ymddiriedolaeth Elusennol

Sefydliad elusennol yw sefydliad a ffurfiwyd er mwyn gwella addysg, hybu iechyd a chysur y cyhoedd, lleihau tlodi, hyrwyddo crefydd, neu at unrhyw ddiben elusennol arall yn ôl y gyfraith.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen i ymddiriedolaeth elusennol gofrestru â'r Comisiwn Elusennau.

## 3.8 Cyrff anghorfforedig eraill

Mae'n bosibl bod mathau eraill o gyrff anghorfforedig sy'n dymuno cofrestru fel Darparwr Gwasanaeth. Os nad yw'r math o gorff anghorfforedig rydych yn gwneud cais i'w gofrestru wedi'i gynnwys yn y rhestr uchod, dylech ddewis "Corff anghorfforedig arall" ar y ffurflen gais.

## 3.9 Cofrestriad unigol neu gofrestriad ar y cyd

Mewn achosion lle mae un endid cyfreithiol yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth, bydd Darparwr y Gwasanaeth wedi'i gofrestru fel endid cyfreithiol unigol. Os bydd mwy nag un endid cyfreithiol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth, bydd angen i'r endidau cyfreithiol hyn gofrestru ar y cyd fel Darparwr Gwasanaeth.

Er mwyn sicrhau ein bod yn dwyn y cwmni/cwmnïau cywir i gyfrif am y gofal a ddarperir, rydym yn cofrestru'r rhai sy'n **cyfarwyddo, yn rheoli ac yn gyfrifol am ansawdd a diogelwch gwasanaeth.** Mae hyn yn ein galluogi i gymryd camau yn erbyn y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gofal a ddarperir o ansawdd uchel ac yn bodloni gofynion rheoliadau. Mae Atodiad 20 yn cynnwys rhagor o ganllawiau ar y ffordd rydym yn penderfynu pa gwmni/gwmnïau y mae angen iddo/iddynt gofrestru.

# 4. Unigolion Cyfrifol

Fel rhan o gais y darparwr, rhaid i Unigolyn Cyfrifol gael ei ddynodi mewn perthynas â gwasanaeth.

Wrth ystyried addasrwydd unigolyn cyfrifol dynodedig, rhaid i ni fod yn fodlon ynghylch y canlynol:

- a yw'r unigolyn yn gymwys
- a yw'r unigolyn yn addas ac yn briodol i gael ei ddynodi'n Unigolyn Cyfrifol ac
- a fydd yr unigolyn yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Unigolyn Cyfrifol a nodir yn y rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf

## 4.1 Pwy sy'n gymwys?

Mae Adran 21 o'r Ddeddf (Atodiad 13) yn nodi pwy sy'n gymwys i gael ei ddynodi'n unigolyn cyfrifol yn dibynnu ar y math o ddarparwr.

### Unigolyn

Ar gyfer darparwyr unigol, mae'n rhaid mai'r unigolyn yw'r Unigolyn Cyfrifol.

### Cwmni Cyfyngedig

Rydym yn disgwyl mai un o'r cyfarwyddwyr, sydd wedi'i gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau, fyddai hwn. Os na all un o'r cyfarwyddwyr gyflawni'r rôl hon, gallwch ddynodi “swyddog tebyg”. Fodd bynnag, bydd angen i chi esbonio pam na all y rôl hon gael ei chyflawni gan un o'r cyfarwyddwyr.

Gweler isod am y diffiniad o swyddog tebyg.

### Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus (“CCC”)

Dylai'r Unigolyn Cyfrifol fod yn un o'r cyfarwyddwyr neu'n Ysgrifennydd y Cwmni.

### Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (“PAC”)

Dylai'r Unigolyn Cyfrifol fod yn un o bartneriaid y PAC. Os na all unrhyw un o'r partneriaid gyflawni'r rôl hon, gallwch ddynodi “swyddog tebyg”. Gweler isod am y diffiniad o swyddog tebyg.

### Cwmni Elusennol

Ar gyfer cwmni elusennol, gallai'r Unigolyn Cyfrifol fod yn unrhyw un o'r Cyfarwyddwyr sydd wedi'u cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau neu'n unrhyw un o'r ymddiriedolwyr sydd wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Elusennau. Os na all unrhyw un o'r cyfarwyddwyr neu'r ymddiriedolwyr gyflawni'r rôl hon, gallwch ddynodi “swyddog tebyg”, er enghraifft y Prif Weithredwr. Gweler isod am y diffiniad o swyddog tebyg.

**Sefydliad Corfforedig Elusennol (“SCE”)**

Dylai'r Unigolyn Cyfrifol fod yn un o ymddiriedolwyr neu aelodau'r SCE. Os na all unrhyw un o'r ymddiriedolwyr neu'r aelodau gyflawni'r rôl hon, gallwch ddynodi “swyddog tebyg”. Gweler isod am y diffiniad o swyddog tebyg.

**Awdurdodau Lleol**

Ar gyfer Awdurdodau Lleol, rydym yn disgwyl y bydd gan y person a ddynodir gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdod digonol yn y sefydliad. Rydym yn disgwyl mai'r cyfarwyddwr ei hun, pennaeth gwasanaeth neu reolwr gwasanaeth fydd hwnnw.

**Byrddau Iechyd Lleol (“BILlau”)**

Ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, rydym yn disgwyl y bydd gan y person awdurdod digonol yn y sefydliad.

**Partneriaethau**

Mae'n rhaid mai un o'r partneriaid yw'r Unigolyn Cyfrifol.

**Pwyllgor**

Mae'n rhaid mai un i aelodau'r pwyllgor yw'r Unigolyn Cyfrifol.

**Ymddiriedolaeth Elusennol**

Mae'n rhaid mai un o ymddiriedolwyr neu aelodau'r elusen yw'r Unigolyn Cyfrifol.

**Cyrff anghorfforedig eraill**

Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol fod yn un o aelodau'r corff.

Gellir gofyn i gyrff ddarparu dogfennau ychwanegol i ddangos bod gan yr unigolyn a ddynodir awdurdod digonol.

**“Swyddog tebyg”**

Os bydd darparwr yn dynodi “swyddog tebyg” i gyflawni rôl yr Unigolyn Cyfrifol, byddwn yn ystyried y meini prawf canlynol wrth asesu a oes gan yr unigolyn awdurdod digonol yn y sefydliad:

- yr awdurdod i benodi a diswyddo rheolwyr ac unrhyw aelodau eraill o staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth
- yr awdurdod i osod cyfraddau cyflog ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol yn y gwasanaeth
- yr awdurdod i wneud penderfyniadau am fuddsoddi yn y gwasanaeth
- cyfrifoldeb am oruchwylio iechyd a diogelwch y gwasanaeth perthnasol; ac
- atebolrwydd am bennu trefniadau sicrwydd a gosod unrhyw feincnodau yn y gwasanaeth

## 4.2 Prawf person addas a phriodol

Mae'n rhaid i ni fod yn fodlon bod yr unigolyn a ddynodir yn addas ac yn briodol. Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn asesu hyn ym mharagraph 6.3.

## 4.3 Dyletswyddau'r Unigolyn Cyfrifol

Mae'r Rheoliadau yn gosod dyletswyddau penodol ar yr Unigolyn Cyfrifol a bydd angen i ni fod yn fodlon bod yr Unigolyn Cyfrifol a ddynodir ar gyfer pob gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rhain. Mae'r dyletswyddau hyn yn rhoi pwyslais ar sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli a'i oruchwylio'n effeithiol gan ganolbwyntio ar wella'n barhaus. Wrth ddynodi Unigolyn Cyfrifol, bydd angen i ddarparwyr fod yn hyderus bod yr unigolyn yn gymwys i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

Fel rhan o'r broses gofrestru, bydd angen i Unigolion Cyfrifol gwblhau holiadur a chymryd rhan mewn cyfweliad addasrwydd. Bwriedir i'r holiadur hwn fesur gallu unigolyn i gydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir arno gan y rheoliadau a nodi unrhyw feysydd i'w trafod ymhellach yn ystod y cyfweliad addasrwydd. Mae'r cwestiynau wedi'u nodi yn Atodiad 6.

Wrth ystyried addasrwydd yr Unigolyn Cyfrifol, byddwn hefyd yn ystyried ei addasrwydd i benodi rheolwr ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r Unigolyn Cyfrifol weithredu fel rheolwr y gwasanaeth mewn amgylchiadau penodol. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

Os ydych wedi eich cofrestru fel unigolyn, dim ond os bydd yr amodau canlynol yn gymwys y bydd hyn yn bosibl:

- rydych yn addas i reoli'r gwasanaeth
- rydych wedi eich cofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, **ac**
- rydym yn cytuno y gallwch ymgymryd â'r ddwy rôl

Os mai chi yw'r Unigolyn Cyfrifol ar gyfer partneriaeth neu sefydliad, dim ond os bydd yr amodau canlynol yn gymwys y bydd hyn yn bosibl:

- mae'r darparwr gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu dau wasanaeth ar y mwyaf
- rydych yn addas i reoli'r gwasanaeth
- rydych wedi eich cofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, **ac**
- rydym yn cytuno y gallwch ymgymryd â'r ddwy rôl

## 5. Gwneud cais

Rhaid i bob cais i gofrestru gwasanaeth rheoleiddiedig gael ei wneud drwy Arolygiaeth Gofal Cymru Ar-lein.

Rydym yn cydnabod y gall nifer bach o ymgeiswyr ei chael hi'n anodd cael mynediad i AGC Ar-lein. Rydym yn awgrymu y dylech chwilio am opsiynau amgen, fel llyfrgelloedd lleol neu leoliadau eraill sy'n cynnig mynediad dibynadwy i'r rhyngrwyd.

Os bydd ymgeiswyr, ar ôl ystyried yr opsiynau hyn, yn dal i'w chael hi'n anodd cael mynediad i Arolygiaeth Gofal Cymru Ar-lein, gellir trefnu iddynt ddod i un o'n swyddfeydd i gwblhau'r cais ar-lein gyda chymorth digidol gan aelod o'n staff.

**Ffurflen Gais**

Mae'r ffurflen gais wedi'i rhannu'n **dair** rhan benodol:

### 5.1 Gwybodaeth am ddarparwr y gwasanaeth

Bydd y rhan hon o'r ffurflen yn gofyn am fanylion am ddarparwr y gwasanaeth. Os mai sefydliad yw darparwr y gwasanaeth, bydd angen i ni gael gwybodaeth am yr unigolion dan sylw fel rhan o'n hasesiad person addas a phriodol. Bydd angen i ymgeiswyr nodi'r math o endid cyfreithiol y maent yn gwneud cais i'w gofrestru, er enghraifft unigolyn, cwmni cyfyngedig, cwmni elusennol, ac ati. Mae'r mathau gwahanol o ddarparwyr gwasanaethau wedi'u nodi ym Mhennod 3.

### 5.2 Y math o wasanaeth(au) rheoleiddiedig rydych yn gwneud cais i'w ddarparu/darparu

Gwybodaeth am y gwasanaeth(au) rheoleiddiedig, gan gynnwys:

- y lleoliad
- y safle
- ystod oedran y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- uchafswm nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth (lle y bo'n briodol)
- Datganiad o Ddiben a lanlwythwyd ar gyfer y gwasanaeth(au)

### 5.3 Yr Unigolyn Cyfrifol dynodedig

Bydd angen i ddarparwr y gwasanaeth ddynodi Unigolyn Cyfrifol ar gyfer pob gwasanaeth y mae'n gwneud cais i'w gofrestru. Os mai'r Unigolyn Cyfrifol dynodedig yw'r person sy'n cwblhau'r cais, caiff adran yr Unigolyn Cyfrifol o'r ffurflen ei harddangos ar-lein.  Os nad yr Unigolyn Cyfrifol yw'r person sy'n cwblhau'r ffurflen gais, bydd yn cael e-bost yn rhoi gwybod iddo am ei ddynodiad ac yn gofyn iddo fewngofnodi i Arolygiaeth Gofal Cymru Ar-lein i gwblhau adran yr Unigolyn Cyfrifol o'r ffurflen gais. Pan fydd yr Unigolyn Cyfrifol yn mewngofnodi, rhaid iddo ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a nodwyd ar y cais er mwyn sicrhau y gellir cyfateb ei fanylion i'r gwasanaeth cywir.

Pan fydd yr Unigolyn Cyfrifol wedi cwblhau pob un o adrannau'r ffurflen, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd a gofynnir iddo fewngofnodi i Arolygiaeth Gofal Cymru Ar-lein i gyflwyno'r cais.

Gofynnir i ymgeiswyr nodi a ydynt yn cytuno i gyfathrebu â ni yn electronig. Bydd hyn yn cynnwys pob llythyr a Hysbysiad cyfreithiol.

### 5.4 Gwybodaeth a dogfennau gofynnol

**Gwasanaethau seiliedig ar Lety**

Tystysgrif Rheolaeth Adeiladu neu dystiolaeth yn dangos nad oes ei hangen
Prawf o Ganiatâd Cynllunio neu dystiolaeth yn dangos nad oes ei angen
Asesiad Risg Tân
Tystysgrif comisiynu system llethu/anwedd dŵr/chwistrellu dŵr ar gyfer tân i ddangos ei bod wedi'i gosod
Tystysgrif busnes bwyd/tystiolaeth bod cais am dystysgrif wedi'i wneud
Tystiolaeth o berchnogaeth neu gytundeb les ar gyfer y safle

**Ni fydd ymgeiswyr yn gallu cyflwyno eu cais os na fydd unrhyw agwedd ar y wybodaeth uchod ar gael.**

Mae Atodiad 8 yn cynnwys crynodeb manylach o'r wybodaeth a'r dogfennau sydd eu hangen yn y ffurflen gais.

Gofynnwn am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob ymgeisydd unigol ac Unigolyn Cyfrifol. Er mwyn i'r gwiriad hwn fod yn ddilys, mae'n rhaid bod y dystysgrif wedi'i chyflwyno lai na thri mis cyn i'r cais gael ei gyflwyno, neu mae'n rhaid bod yr unigolyn wedi'i gofrestru ar gyfer Gwasanaeth Diweddaru y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd angen i ni weld y dystysgrif hon fel rhan o'r broses gofrestru. Gellir anfon y dystysgrif hon atom drwy'r post gan ddefnyddio gwasanaeth cofnodedig neu gall yr unigolyn ei chyflwyno'n bersonol yn ei gyfweliad addasrwydd.

### 5.5 Diweddariadau am hynt y cais

Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, gall yr ymgeisydd olrhain ei hynt drwy Arolygiaeth Gofal Cymru Ar-lein.

Ni chaiff cais ei dderbyn nes y bydd wedi pasio ein **gwiriad cyflawnrwydd**. Bydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn ddilys neu wedi'i chynnwys. Os na fydd cais yn pasio ein **gwiriad cyflawnrwydd**, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am y meysydd y mae angen iddo roi sylw iddynt.

Ar ôl pasio'r **gwiriad cyflawnrwydd**, caiff y cais ei dderbyn gennym a rhoddir gwybod i'r ymgeisydd.

Bydd hynt eich cais yn cael ei arddangos ar AGC Ar-lein.

## 6. Asesu'r cais

Pan fydd y cais wedi cael ei dderbyn, byddwn yn cynnal **asesiad o ansawdd**. Byddwn fel arfer yn asesu ceisiadau yn y drefn y cawsant eu derbyn, ond byddwn yn ymateb i bwysau yn y sector. .

### 6.1 Ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniad ynglŷn â chais

Wrth wneud penderfyniad ynglŷn â chais, byddwn yn ystyried y canlynol:

- A yw'r ffurflen gais yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol?
- A ydym yn fodlon bod yr ymgeisydd yn 'berson addas a phriodol'?
- A ydym yn fodlon bod yr Unigolyn Cyfrifol yn addas?
- A ydym yn fodlon y bydd darparwr y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion y rheoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall?

Mae Atodiad 9 yn nodi ein Fframwaith Penderfynu, sy'n cynnwys y ffynonellau tystiolaeth rydym yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau a phennu disgwyliadau.

### 6.2 A yw'r cais yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol?

Bydd ein gwiriad cyflawnrwydd cychwynnol yn sicrhau bod y ffurflen gais yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Os byddwn yn gweld nad yw'r wybodaeth neu'r dogfennau a ddarparwyd yn cynnwys digon o fanylion, byddwn yn gofyn am i hyn gael ei unioni.

### 6.3 Person Addas a Phriodol

Wrth wneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â chofrestru darparwr gwasanaeth, rhaid i ni fod yn fodlon bod darparwr y gwasanaeth a'r Unigolyn Cyfrifol yn "addas a phriodol" i ddarparu gwasanaethau rheoleiddiedig. Mae Adran 9 o'r Ddeddf (Atodiad 14) yn nodi'r prawf person addas a phriodol. Mae is-adrannau (4) - (8) yn nodi gwahanol faterion sy'n debygol o effeithio ar addasrwydd darparwr gwasanaeth neu Unigolyn Cyfrifol, er enghraifft: troseddau a gyflawnwyd, cysylltiad â pherson sydd wedi cyflawni troseddau, cysylltiad blaenorol ag achos o gamymddwyn neu ddiffyg rheolaeth gan wasanaeth rheoleiddiedig. Mae hyn yn cynnwys unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau mewn gwasanaethau sydd eisoes wedi'u cofrestru sy'n gysylltiedig â darparwr y gwasanaeth neu'r Unigolyn Cyfrifol. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd ystyried pob mater sy'n briodol yn ein barn ni.

Bydd ein hasesiad o addasrwydd yn cynnwys unrhyw wybodaeth sydd gennym eisoes am ddarparwr gwasanaeth neu Unigolyn Cyfrifol. Efallai y byddwn yn cysylltu â rheoleiddwyr eraill (fel Gofal Cymdeithasol Cymru neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal) am wybodaeth lle y bo'n briodol. Wrth ystyried unrhyw faterion blaenorol sy'n ymwneud ag achos o gamymddwyn neu ddiffyg rheolaeth gan wasanaeth rheoleiddiedig, byddwn yn ystyried y materion canlynol, ymhlith pethau eraill:

(a) difrifoldeb a hyd yr achos o gamymddwyn neu ddiffyg rheolaeth

(b) niwed a achoswyd i unrhyw berson, neu unrhyw dystiolaeth o fwriad i achosi niwed

(c) unrhyw elw ariannol a wnaed gan y person

(d) unrhyw gamau a gymerwyd gan y person i unioni'r achos o gamymddwyn neu ddiffyg rheolaeth

Bydd angen i ymgeiswyr ac Unigolion Cyfrifol gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel rhan o'r broses gofrestru.

Os caiff canlyniad positif ei ddatgelu gan wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, byddwn yn ystyried a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Gall hyn gynnwys cynnal cyfweliad er mwyn canfod a yw'r datgeliad yn debygol o effeithio ar addasrwydd yr unigolyn i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig.

Rhaid i ymgeiswyr unigol ac Unigolion Cyfrifol ddarparu dau eirda mewn perthynas â'u cymhwysedd i gyflawni rôl yr Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth(au) rheoleiddiedig.

### 6.4 Addasrwydd yr Unigolyn Cyfrifol

Mae Pennod 4 yn nodi'r meini prawf addasrwydd rydym yn eu cymhwyso wrth ystyried dynodiad Unigolyn Cyfrifol.

Gall yr un Unigolyn Cyfrifol gael ei ddynodi mewn perthynas â mwy nag un gwasanaeth. Fodd bynnag, bydd angen i ni fod yn fodlon na fydd hyn yn effeithio ar ei allu i gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â phob un o'r gwasanaethau hynny. Wrth gwblhau ein hasesiad, byddwn yn ystyried y canlynol:

- Yr amrywiaeth o wasanaethau rheoleiddiedig
- Maint a chymhlethdod y gwasanaethau
- Lleoliad daearyddol y gwasanaethau
- Yr ymatebion a roddwyd yn holiadur yr Unigolyn Cyfrifol
- A yw'r Unigolyn Cyfrifol yn gysylltiedig ag unrhyw wasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU

### 6.5 Cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol

Bydd angen i ni fod yn fodlon y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys y rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol i'r gwasanaeth, fel deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Mae'r Rheoliadau a Chanllawiau ategol gan Lywodraeth Cymru (Atodiad 7) yn nodi'r gofynion a osodir ar ddarparwyr gwasanaethau. Mae ein Fframwaith Penderfynu yn rhoi mwy o fanylion am y ffynonellau tystiolaeth rydym yn eu defnyddio i ddod i benderfyniadau ynglŷn â chofrestru.

Byddwn yn ystyried lefelau o ddiffyg cydymffurfio mewn gwasanaethau sy'n bodoli eisoes fel rhan o'n hasesiad pan fydd darparwr cofrestredig yn gwneud cais i ychwanegu gwasanaeth arall.

Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i ymgeisydd gwblhau rhestr wirio ar gyfer y safle ac efallai y byddwn yn cynnal ymweliad â'r safle fel rhan o gais i gofrestru. Cynhelir yr ymweliad hwn er mwyn asesu gallu'r ymgeisydd i fodloni gofynion rheoliadol mewn perthynas ag addasrwydd y safle i ddarparu'r gwasanaeth a ddisgrifir yn y Datganiad o Ddiben. Felly, rhaid i'r Arolygydd Cofrestru allu gweld y safle wedi'i gwblhau ac yn barod i ddarparu'r gwasanaeth er mwyn cynnal yr asesiad hwnnw.

Mae Atodiad 8 yn nodi'r gwahanol ddogfennau y bydd angen i ni eu gweld yn ystod yr asesiad o'r safle. Gall ymweliadau â gwasanaethau a ddefnyddir fod yn destun Asesiad Risg, ac mewn rhai achosion, gellir cynnal asesiad rhithwir o'r safle.

Ni ddylid cyflwyno cais i gofrestru oni bai bod y safle yn barod i gael ei asesu.

Nid yw AGC yn ymweld â safle nac yn asesu ei addasrwydd cyn i gais gael ei gyflwyno.

Rhaid cyflwyno asesiad o leoliad fel rhan o gais i gofrestru cartref gofal i blant. Byddwn yn gofyn i chi am yr asesiad hwn fel rhan o'r cyfweliad person addas gan y bydd yn ofynnol i chi ddangos eich bod yn deall yr amgylchedd, y gymuned, y risgiau a'r gwasanaethau sydd ar gael, ac y gallwch amddiffyn a hybu diogelwch a lles plant.

Mae angen i'r asesiadau o leoliad roi sicrwydd i AGC fod y llety mewn lleoliad priodol, bod risgiau wedi'u lliniaru a bod cyfleoedd cadarnhaol ar gael i bobl ifanc.

Mae'n hanfodol eich bod yn darllen Canllawiau ar gofrestru cartref gofal i blant – Atodiad B fel rhestr wirio o arferion da i'w hystyried wrth gynnal asesiad o leoliad. Datblygwyd y rhestr wirio hon er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu dilyn wrth gynnal asesiadau o leoliad ac i annog darparwyr a gwasanaethau lleol i gydweithio fel y gall plant sy'n byw mewn cartrefi gofal gael yr un buddiannau a chael eu hamddiffyn yn yr un ffordd â phlant eraill. **Bydd hyn yn eich helpu i ddeall y camau allweddol rydym yn disgwyl i chi fod wedi'u cymryd wrth gynnal eich asesiad o leoliad.**

Mae'n arfer da sicrhau bod asesiad o leoliad yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i fod yn cael ei ddiwygio i ystyried unrhyw risgiau newydd wrth iddynt gael eu nodi.

Wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â chofrestru, byddwn yn rhesymol ac yn gymesur o ran y wybodaeth y byddwn yn gofyn amdani, a dim ond pan fydd angen i ni wneud hynny er mwyn ein helpu i ddod i benderfyniad y byddwn yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol.

Byddwn yn ceisio dod i benderfyniad ynglŷn â cheisiadau cofrestru mewn modd amserol. Os bydd angen gwybodaeth ychwanegol arnom neu os bydd materion

penodol y mae angen eu datrys mewn perthynas â gwasanaeth, efallai y bydd angen i ni ymestyn yr amser y mae'n ei gymryd i ni brosesu'r cais.

NODER – nid yw cyflwyno cais yn golygu y caiff cofrestriad ei gymeradwyo yn awtomatig. Nod AGC yw cofrestru gwasanaethau diogel o ansawdd da a gall asesu cais a gwneud penderfyniad yn ei gylch arwain at gymeradwyo neu wrthod cofrestriad.

Ar ôl iddynt gael eu cofrestru, rydym yn disgwyl i Ddarparwyr Gwasanaethau barhau i fodloni gofynion rheoliadol, gwella ansawdd y gwasanaeth ac ymgysylltu ag AGC.

**Tynnu cais yn ôl cyn i benderfyniad gael ei wneud**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud penderfyniad ynglŷn â chais i gofrestru. Er bod hyn yn ofyniad cyfreithiol llym, rydym yn cydnabod efallai y bydd ymgeisydd am dynnu cais yn ôl cyn i benderfyniad gael ei wneud. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn briodol i ni drin y cais fel cais wedi'i dynnu'n ôl.

Rhaid i unrhyw benderfyniad i dynnu cais yn ôl gael ei wneud gan yr ymgeisydd ei hun, a all geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun os bydd yn dymuno gwneud hynny.

**Os bydd ymgeisydd am dynnu cais yn ôl**

Dylai'r ymgeisydd ddefnyddio ei gyfrif ar-lein i ofyn am i gais gael ei dynnu'n ôl, gan esbonio'r amgylchiadau. Bydd yr Arolygydd Cofrestru yn rhoi'r gorau i asesu'r cais.

Ar sail esboniad yr ymgeisydd o'r amgylchiadau, bydd Rheolwr y Tîm yn penderfynu a yw'n briodol trin y cais fel cais wedi'i dynnu'n ôl yn hytrach na gwneud penderfyniad yn ei gylch. Os caiff y cais ei gymeradwyo, caiff ei gofnodi fel cais wedi'i dynnu'n ôl ac anfonir cadarnhad o hyn at yr ymgeisydd.

Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle y bydd AGC yn parhau i wneud penderfyniad ynglŷn â chais, er bod yr ymgeisydd wedi nodi nad yw'n awyddus i gael ei gofrestru mwyach. Er enghraifft, os bydd cais yn cael ei gyflwyno a'r broses gyfweld a gwybodaeth arall a gafwyd yn arwain AGC at y farn glir y byddai'r ymgeisydd yn anaddas i gael ei gofrestru. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd AGC yn penderfynu gwrthod y cais.

# 7. Penderfyniadau ynglŷn â chofrestru

Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gofrestru gwasanaeth unigol yn cael Hysbysiad unigol o benderfyniad.

Os bydd darparwr gwasanaeth wedi gwneud cais i gofrestru mwy nag un gwasanaeth fel rhan o'r un cais, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad o benderfyniad fesul gwasanaeth a fydd yn golygu bod darparwr y gwasanaeth wedi'i gofrestru â ni. Bydd hyn yn atal unrhyw oedi wrth gofrestru pob gwasanaeth.

## 7.1 Cymeradwyo cais

Os bydd ymgeisydd wedi nodi ei fod yn derbyn yr amodau cofrestru arfaethedig ar y ffurflen gais a byddwn yn bwriadu cymeradwyo'r cais, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad i gymeradwyo'r cais. Daw'r cofrestriad i rym ar yr un diwrnod ag y caiff yr Hysbysiad ei gyhoeddi.

## 7.2 Cymeradwyo cais gan osod amodau

Os byddwn yn bwriadu cymeradwyo cais ond na fydd yr ymgeisydd wedi nodi ei fod yn derbyn yr amodau cofrestru arfaethedig ar y ffurflen gais neu byddwn yn bwriadu gosod amodau ychwanegol, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad o Gynnig i osod amodau. Er enghraifft, os bydd ymgeisydd wedi gofyn am gael cofrestru cartref gofal gydag uchafswm capasiti o 60 o bobl, ond byddwn yn cynnig cofrestru'r gwasanaeth gydag uchafswm capasiti o 50 o bobl.

Bydd yr Hysbysiad yn nodi'r amodau rydym yn bwriadu eu gosod, y rhesymau dros hynny a'r amserlen ar gyfer gwneud sylwadau am ein cynnig.

Mewn amgylchiadau penodol, efallai y byddwn yn nodi camau gweithredu a fyddai, pe baent yn cael eu cymryd o fewn cyfnod penodol o amser, yn golygu na fyddai'r amod hwnnw'n cael ei osod. Er enghraifft, cynnig i leihau uchafswm capasiti'r gwasanaeth, oni bai bod camau unioni yn cael eu cymryd i wella'r safle.

Daw Hysbysiad o Benderfyniad i gymeradwyo cais, a gyhoeddir yn dilyn Hysbysiad o Gynnig, i rym 28 diwrnod ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, oni chaiff apêl ei gwneud i'r Tribiwnlys.

Felly, os na chaiff apêl ei gwneud, daw'r cofrestriad i rym 28 diwrnod ar ôl i ni gyhoeddi'r Hysbysiad o Benderfyniad. Os caiff apêl ei gwneud, ni ddaw'r cofrestriad i rym nes y bydd y Tribiwnlys wedi penderfynu ar ganlyniad yr apêl neu y caiff yr apêl ei thynnu'n ôl.

## 7.3 Gwrthod cais

Os byddwn yn bwriadu gwrthod cais i gofrestru, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad o Gynnig. Mewn amgylchiadau penodol, efallai y byddwn yn nodi camau gweithredu a fyddai, pe baent yn cael eu cymryd o fewn cyfnod penodol o amser, yn golygu na

fyddem yn cymryd y camau arfaethedig. Er enghraifft, cynnig i wrthod cais, oni bai bod Unigolyn Cyfrifol boddhaol arall yn cael ei ddynodi.

Bydd yr Hysbysiad yn nodi'r rhesymau dros wrthod y cais a'r amserlen ar gyfer gwneud sylwadau am eich cynnig.

Daw Hysbysiad o Benderfyniad i wrthod cais, a gyhoeddir yn dilyn Hysbysiad o Gynnig, i rym 28 diwrnod ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, oni chaiff apêl ei gwneud i'r Tribiwnlys.

### 7.4 Y Broses Sylwadau ac Apeliadau

#### Sylwadau

Os byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad o Gynnig naill ai i osod amodau ar gofrestriad neu wrthod cais, bydd yr Hysbysiad yn pennu terfyn amser ar gyfer cyflwyno sylwadau i ni. Bydd y terfyn amser hwn wedi'i nodi yn yr Hysbysiad, ond rhaid iddo fod yn 28 diwrnod o leiaf.

Byddwn yn anelu at ymateb drwy gyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad o fewn 28 diwrnod ar ôl y terfyn amser ar gyfer gwneud sylwadau. Os na allwn ymateb o fewn 28 diwrnod, byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd ac yn nodi'r rhesymau dros hynny. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad o fewn 56 diwrnod ar ôl y terfyn amser ar gyfer gwneud sylwadau. Rydym yn ystyried sylwadau yn unol â'n Proses Sylwadau, gweler Atodiad 10.

Bydd yr Hysbysiad o Benderfyniad yn nodi a ydym yn bwriadu cymryd y camau arfaethedig, a bydd yn egluro'r rhesymau dros hynny ac unrhyw hawliau i apelio.

#### Apeliadau

Rhaid i unrhyw apêl gael ei gwneud yn uniongyrchol i'r Tribiwnlys erbyn y terfyn amser a bennwyd yn yr Hysbysiad. Yna, bydd y Tribiwnlys yn pennu amserlen ar gyfer yr achos.

Gall y Tribiwnlys gadarnhau'r penderfyniad i wrthod y cais, gwrthdroi'r penderfyniad, gorchymyn y dylid cymeradwyo'r cais, neu wneud unrhyw orchymyn arall fel y gwêl yn briodol.

### 7.5 Amodau cofrestru

O dan y Ddeddf, nid chaiff tystysgrifau cofrestru eu cyhoeddi mwyach. Fodd bynnag, bydd ein gwefan yn cynnwys cofrestr o'r holl ddarparwyr cofrestredig a'u hamodau cofrestru.

Bydd yr amodau hyn yn amrywio yn dibynnu ar y math o wasanaeth. Ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar lety, bydd yr amodau cofrestru safonol canlynol yn gymwys i'r gwasanaeth bob amser:

- Lleoliad y gwasanaeth

- Dynodiad yr Unigolyn Cyfrifol
- Uchafswm nifer yr unigolion y gall y gwasanaeth eu lletya

Ar gyfer gwasanaethau cymunedol, bydd yr amodau cofrestru safonol canlynol yn gymwys i'r gwasanaeth bob amser:

- Yr ardal ddaearyddol lle y caiff y gwasanaeth ei ddarparu
- Dynodiad yr Unigolyn Cyfrifol

Ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n bartneriaethau, rydym yn rhestru enwau'r partneriaid fel amodau cofrestru. Mae hyn yn osgoi sefyllfa lle bydd aelodau'r bartneriaeth yn newid, a fyddai'n golygu bod angen gwneud cais i gofrestru endid cyfreithiol newydd.

Gallwn osod amodau ar gofrestriad Darparwr Gwasanaeth pan fydd yn cofrestru a phan fydd y gwasanaeth wedi dod yn weithredol.

## 8. Hysbysiadau ac Amrywiadau Ar-lein

Pan fydd gwasanaeth wedi'i gymeradwyo, bydd angen i'r Unigolyn Cyfrifol actifadu ei gyfrif AGC Ar-lein, gan ei alluogi i gyflwyno hysbysiadau a gwneud cais i amrywio'r amodau cofrestru. Y cyfrif hwn fydd yr un a ddefnyddiwyd yn ystod y broses gofrestru.

Bydd gan bob Unigolyn Cyfrifol ei gyfrif ei hun ac ni ddylai rannu manylion mewngofnodi ei gyfrif ag unrhyw berson arall.

Ceir canllaw ar actifadu cyfrif AGC Ar-lein yn Atodiad 15 i'r canllawiau hyn.

### 8.1 Amrywio amodau

Gellir amrywio amodau cofrestru Darparwr Gwasanaeth naill ai drwy gamau gweithredu gennym ni i wneud hynny, neu drwy gais gan Ddarparwr y Gwasanaeth.

### 8.2 Y camau gweithredu a gymerir gennym

Bydd y math o Hysbysiad y byddwn yn ei gyhoeddi yn dibynnu ar y math o gamau gweithredu y byddwn yn cynnig eu cymryd.

O dan yr amgylchiadau canlynol, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad o Gynnig:

- Gosod amodau ar gofrestriad darparwr gwasanaeth
- Amrywio amodau ar gofrestriad darparwr gwasanaeth (ac eithrio amrywio'r Unigolyn Cyfrifol)

Byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad Gwella yn yr amgylchiadau canlynol:

- Dileu gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth o gofrestriad darparwr gwasanaeth
- Canslo cofrestriad darparwr gwasanaeth
- Canslo dynodiad Unigolyn Cyfrifol

Bydd pob Hysbysiad y byddwn yn ei gyhoeddi yn nodi'r camau gweithredu rydym yn bwriadu eu cymryd, y rheswm/rhesymau dros gymryd y camau gweithredu a therfyn amser i'r sawl sy'n derbyn yr Hysbysiad wneud sylwadau i ni. Gall yr amserlen ar gyfer gwneud sylwadau amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ond ym mhob achos, mae'n rhaid iddi fod o leiaf 28 diwrnod ar ôl i'r Hysbysiad gael ei gyhoeddi.

Mae ein Proses Sylwadau yn Atodiad 10 yn nodi'r broses ar gyfer gwneud sylwadau a'r ffordd rydym yn ymateb iddynt.

### 8.3 Ceisiadau gan Ddarparwyr Gwasanaethau

Gall Darparwyr Gwasanaethau wneud cais i amrywio eu hamodau yn y ffyrdd canlynol drwy AGC Ar-lein:

- Ychwanegu gwasanaeth
- Dileu gwasanaeth

- Dynodi Unigolyn Cyfrifol newydd ar gyfer gwasanaeth
- Canslo dynodiad Unigolyn Cyfrifol ar gyfer gwasanaeth
- Amrywio uchafswm nifer yr unigolion y gall y gwasanaeth eu lletya

Mae Atodiad 16 yn nodi'r wybodaeth a'r dogfennau y bydd angen i ddarparwr eu cyflwyno fel rhan o bob cas i amrywio.

Dim yr Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth all wneud cais i amrywio amodau cofrestru.

Os byddwn yn bwriadu cymeradwyo cais, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad i gymeradwyo'r cais. Daw'r penderfyniad i rym ar yr un diwrnod ag y caiff yr Hysbysiad ei Gyhoeddi.

Os byddwn yn bwriadu gwrthod cais i gofrestru, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad o Gynnig. Mewn amgylchiadau penodol, efallai y byddwn yn nodi camau gweithredu a fyddai, pe baent yn cael eu cymryd o fewn cyfnod penodol o amser, yn golygu na fyddem yn cymryd y camau arfaethedig. Os byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad o Gynnig i wrthod cais, bydd yr Hysbysiad yn pennu terfyn amser ar gyfer gwneud sylwadau i ni. Mae ein Proses Sylwadau yn Atodiad 10 yn nodi'r broses ar gyfer gwneud sylwadau a'r ffordd rydym yn ymateb iddynt.

## Atodiad 1. Nodyn Ymarfer ar ddehongli gofal a chymorth

Mae'r Nodyn Ymarfer hwn yn berthnasol i wasanaethau sydd angen eu cofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac yn ceisio darparu enghreifftiau ymarferol o'r mathau o weithgareddau a all fod yn berthnasol o ran “gofal” neu “gymorth” yn y gwasanaethau rheoleiddiedig gwahanol.

### Y fframwaith cyfreithiol

Mae Adran 3 o'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn diffinio gofal a chymorth yn ôl y termau canlynol:

ystyr “gofal” yw gofal sy’n ymwneud â'r canlynol—

(i) tasgau ac anghenion corfforol beunyddiol y person y gofelir amdano (er enghraifft, bwyta ac ymolchi),
(ii) y prosesau meddyliol sy’n ymwneud â’r tasgau a’r anghenion hynny (er enghraifft, y broses feddyliol o gofio bwyta ac ymolchi);

ystyr “cymorth” yw cwnsela, cyngor neu help arall, a ddarperir fel rhan o gynllun a luniwyd ar gyfer y person sy’n cael cymorth gan—

(i) ddarparwr gwasanaeth neu berson arall sy’n darparu gofal a chymorth i’r person, neu
(ii) awdurdod lleol (hyd yn oed os nad yw’r awdurdod yn darparu gofal a chymorth i’r person).

Nid yw gwasanaeth sy'n darparu cymorth yn unig yn bodloni'r diffiniad o wasanaeth cymorth cartref na gwasanaeth cartref gofal.

### Gwasanaethau cartrefi gofal

Mae gwasanaeth cartref gofal yn darparu llety, ynghyd â gwasanaeth nyrsio neu ofal, i unigolyn/unigolion oherwydd eu bregusrwydd neu eu hangen. Gall hyn fod yn blentyn neu'n oedolyn.

Pan fydd yr endid cyfreithiol sy'n darparu'r llety hefyd yn darparu un o'r gweithgareddau a nodir isod, neu gyfuniad ohonynt, i'r unigolyn, yna mae'n debygol bod y gwasanaeth yn bodloni'r diffiniad o gartref gofal.

Ar gyfer oedolion a phlant, bydd gofal bob amser yn cynnwys y canlynol:

- Cymorth gyda swyddogaethau'r corff, fel bwydo, ymolchi a cherdded (yn cynnwys annog yr unigolyn i wneud hyn);
- Cymorth i reoli ataliaeth (yn cynnwys annog yr unigolyn i wneud hyn)
- Cymorth gyda gofal y geg a gofal deintyddol (yn cynnwys annog yr unigolyn i wneud hyn)

- Rhoi meddyginiaeth (yn cynnwys annog yr unigolyn i wneud hyn)
- Cymorth wrth wisgo (yn cynnwys annog yr unigolyn i wneud hyn) neu
- Cymorth i gynnal iechyd y croen (yn cynnwys annog yr unigolyn i wneud hyn)

*Mae "annog" yn cynnwys atgoffa rhywun i gyflawni'r gweithgareddau uchod ond nid yw'n cynnwys cynghori na chwnsela*

**Enghraifft o'r broses annog**

Mae angen i staff sy'n gofalu am berson ei annog i gymryd ei feddyginiaeth a brwsio ei ddannedd ar ôl brecwast a chyn mynd i'r gwely. Mae angen annog y person gan na fyddai ganddo'r galluedd i gofio na deall bod angen iddo gyflawni'r dasg hon er mwyn cadw ei hun yn iach na chanlyniadau peidio â chyflawni'r dasg hon.

**Enghraifft o gynghori a chwnsela**

Mae staff sy'n gofalu am berson nad yw'n fodlon neu'n gallu ymolchi, er ei fod yn deall pwysigrwydd y dasg hon, yn cynnig cymorth a chyngor i'r person. Gall hyn fod drwy gynnig cyngor iddo ar y ffordd orau o gymell ei hun i ymolchi neu drwy ddarparu cymorth cwnsela i'w helpu i chwalu ei rwystrau ei hun, fel ei fod yn fodlon neu'n gallu ymolchi.

**Caiff y canlynol eu hystyried wrth benderfynu a yw gofal yn cael ei ddarparu i blentyn sy'n cael llety:**

**Plant dan 16 oed**

Fel arfer, bydd AGC yn ystyried bod gofal yn cael ei ddarparu i blant dan 16 oed. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd tystiolaeth glir i ddangos mai dim ond cymorth sydd ei angen ar blentyn 15 oed.

**Pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed.**

- Bydd unrhyw asesiad neu gynllun gofal yn dangos lefel y risgiau a'r gofal a/neu gymorth sydd ei angen.

- Os bydd angen i oedolion sy'n gweithredu in loco parentis roi mesurau amddiffynnol sy'n debyg i rai rhieni ar waith gan na all person ifanc gadw ei hun yn ddiogel yn gorfforol neu'n emosiynol neu lle mae'n amharod i wneud hynny, bydd hyn yn dangos bod gofal yn cael ei ddarparu. Er enghraifft, os na fydd person ifanc yn fodlon neu'n gallu diogelu ei hun rhag niwed a achosir gan weithgaredd troseddol, camddefnyddio sylweddau anghyfreithlon, cam-fanteisio rhywiol, ymddygiad hunan-niweidiol ac ati, mae'r lefelau cynyddol o oruchwyliaeth ac ymyriadau sydd eu hangen i liniaru'r risgiau hyn yn debygol o fod yn gyfystyr â gofal.
- Fel arfer, os bydd person ifanc 16-18 oed yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, bydd gofal yn cael ei ddarparu.

Nid yw'n anghyffredin i rieni ddefnyddio cyrffyw o fewn cwmpas rhianta ar gyfer pobl ifanc. Os bydd angen rhoi cyrffyw ar waith i atal risgiau penodol fel y rheini yn yr enghraifft uchod, bydd hyn yn fel arfer yn gyfystyr â gofal. Nid yw hyn o reidrwydd yn cynnwys cyrffyw a roddir ar waith yn sgil achosion barnwrol a all olygu y bydd dyfais TAG yn cael ei defnyddio. Caiff y ddyfais hon ei monitro gan yr heddlu yn hytrach na'r staff.

Yn yr un modd, os cyfyngir ar allu person ifanc i gael gafael ar ei arian neu ei ddyfeisiau electronig er mwyn lliniaru risgiau fel y rheini a nodwyd uchod, bydd hyn yn gyfystyr â gofal.

**Enghreifftiau o weithgareddau sy'n dangos cymorth**:

Yn gyffredinol, mae gweithgareddau y bwriedir iddynt baratoi person ifanc i adael gofal a'i helpu i bontio i fywyd mwy annibynnol fel oedolyn yn dangos bod gofal yn cael ei ddarparu, er enghraifft:

- Cyfyngir ar allu person ifanc i ddefnyddio ei ddyfeisiau electronig er mwyn cefnogi'r angen am arferion cadarnhaol.

- Gall person ifanc, o bryd i'w gilydd, gyrraedd adref yn hwyrach na'r amser y cytunwyd arno ond lle nad oes unrhyw risg sylweddol, ac mae cynlluniau ar waith i reoli a chefnogi hyn.

- Gall y person ifanc drefnu a mynychu ei apwyntiadau ei hun ond mae'n bosibl y bydd yn gofyn i aelod o'r staff am gymorth o ran trafnidiaeth neu'n gofyn iddo fod yn bresennol yn ystod ei apwyntiadau er mwyn rhoi cymorth emosiynol.

- Gall y person ifanc fynd ar deithiau i'r gymuned, er enghraifft siopa neu fynychu man addoli, ond mae'n bosibl y bydd angen help arno i wneud y trefniadau ymarferol a rheoli gorbryder.


- Gall y person ifanc gael gafael ar yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'i faterion, ond mae'n bosibl y bydd yn gofyn i'r staff ei helpu i ddarllen, ymateb i ymholiadau gan asiantaethau a threfnu ei amser i ymateb yn ôl yr angen.
- Ar y cyfan, mae'r person ifanc yn deall yr angen i bennu cyllideb a rheoli ei arian a'i feddyginiaeth ei hun, ond mae angen rhywfaint o gymorth gan oedolyn arno i wneud y dasg hon.
- Gall y person ifanc lanhau a chynnal yr eiddo a pharatoi ei fwyd a'i ddiod ei hun, ond mae'n bosibl y bydd angen help arno i sicrhau y caiff y tasgau hyn eu cwblhau'n gyson ac yn ddiogel ac i'w annog i ddatblygu ei sgiliau ymhellach.

Bydd anghenion person ifanc yn newid dros amser. Mae'n bosibl y bydd gwasanaeth sy'n darparu gofal i gychwyn yn datblygu i gynnig cymorth a llety.


Noder nid oes angen i wasanaethau sy'n darparu cymorth gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

.


## Atodiad 2. Coeden Benderfynu ar gyfer Gwasanaethau Cartrefi Gofal



## Atodiad 3. Coeden Benderfynu ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Cartref



## Coeden Benderfynu ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Cartref [parhad]



## Atodiad 4. Canllawiau ar Gyfarwyddyd neu reolaeth barhaus gofal a chymorth mewn Gwasanaethau Cymorth Cartref

### Crynodeb

Mae'r diffiniad o wasanaeth cymorth cartref yn cynnwys eithriad i bersonau sy'n cyflwyno gweithiwr gofal i unigolyn, ond nad oes ganddynt unrhyw rôl barhaus yng nghyfarwyddyd a rheolaeth y gofal a'r cymorth a ddarperir.

Mae'r canllawiau hyn yn egluro ystyr ‘cyfarwyddyd a rheolaeth barhaus y gofal a'r cymorth a ddarperir’.

*Noder – bwriedir i'r term “gweithiwr gofal” a ddefnyddir yn y canllawiau hyn gynnwys unigolion sy'n ymgymryd ag amrywiaeth o rolau ac ni fwriedir iddo ddod o dan y diffiniad o “weithiwr gofal cymdeithasol” yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### Diffiniad o wasanaeth Cymorth Cartref

Mae Adran 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf yn cynnwys y diffiniad o wasanaeth cymorth cartref:

*“Gwasanaeth cymorth cartref”* yw’r ddarpariaeth o ofal a chymorth i berson nad yw, oherwydd ei hyglwyfedd neu ei angen (ac eithrio hyglwyfedd neu angen nad yw ond yn codi oherwydd bod y person yn ifanc), yn gallu ei ddarparu ar ei gyfer ef ei hun ac a ddarperir yn y man yng Nghymru lle y mae’r person yn byw (gan gynnwys gwneud trefniadau ar gyfer neu ddarparu gwasanaethau mewn cysylltiad â darpariaeth o’r fath).

### Eithriad

Mae Adran 8(3) o Atodlen 1 i'r Ddeddf yn cynnwys yr eithriad:

Nid yw person sy’n cyflwyno unigolion sy’n darparu gwasanaeth cymorth cartref i unigolion a all ddymuno ei gael ond nad oes ganddo unrhyw rôl barhaus yng nghyfarwyddyd neu reolaeth y gofal a’r cymorth a ddarperir i’w drin fel pe bai’n darparu gwasanaeth cymorth cartref (ni waeth pa un a yw’r cyflwyniad er elw ai peidio).

Mae **Cynorthwywyr Personol** wedi'u heithrio rhag cofrestru ar y sail eu bod yn gweithio'n gyfan gwbl o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y person sy'n cael gofal neu drydydd parti cysylltiedig. Ystyr trydydd parti cysylltiedig yw:

- unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn sy'n cael gofal a chymorth
- unigolyn ag atwrneiaeth neu awdurdod cyfreithlon arall i wneud trefniadau ar ran yr unigolyn sy'n cael gofal a chymorth
- grŵp o unigolion a grybwyllir yn y naill gategori neu'r llall ynglŷn â gwneud
    - trefniadau ar ran dim mwy na phedwar unigolyn a enwir sy'n cael gofal a chymorth

- ymddiriedolaeth a sefydlir at ddiben darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn a enwir.

**Beth sy'n gyfystyr â 'rôl barhaus'?**

Rhaid i berson gofrestru fel gwasanaeth cymorth cartref os bydd yn cyflwyno gweithiwr gofal i unigolyn ac yn gwneud yn **UNRHYW UN** o'r canlynol:

- Yn monitro'r gwasanaeth a ddarperir i'r unigolyn ac, o ganlyniad i'r monitro hwn, yn cymryd cyfrifoldeb am benodi gweithiwr gofal gwahanol am unrhyw reswm.
- Yn ceisio barn yr unigolyn sy'n cael y gwasanaeth neu'n gweithredu fel eiriolwr drosto ac, o ganlyniad, yn cynghori neu'n cyfarwyddo newidiadau i weithgareddau'r gweithiwr gofal (er enghraifft newidiadau i ba mor aml y mae'n ymweld, y math o ofal a ddarperir, neu'r ffordd mae'r gweithiwr gofal yn cyflawni'r tasgau y cytunwyd arnynt).
- Yn trefnu rota gofal o weithwyr gofal fel bod ymweliadau'n cael eu cynnal a gofal yn cael ei ddarparu pan fydd angen hynny ar yr unigolyn.
- Yn parhau i godi tâl ar yr unigolyn am y gwasanaeth a ddarperir gan y gweithiwr gofal, ac eithrio lle bydd trefniadau wedi'u gwneud i'w alluogi i dalu ffi gyflwyno untro drwy randaliadau. Mae hyn yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd pan fydd y darparwr ond yn cyflawni swyddogaeth cyflogres ar gyfer y person sy'n cyflogi'r gweithiwr.
- Yn cytuno i drefnu gweithiwr gofal arall i gyflenwi os bydd y gweithiwr gofal yn sâl neu ar wyliau, heblaw pan fydd yr unigolyn yn gofyn yn uniongyrchol i'r person gyflwyno gweithiwr gofal arall i gyflenwi yn achos gwyliau neu salwch.
- Yn adolygu cynllun gofal y defnyddiwr gwasanaeth, gan gynnwys gwneud newidiadau fel y bo angen, mewn ymgynghoriad â'r unigolyn.

**Beth nad yw'n gyfystyr â 'rôl barhaus'?**

Nid oes angen i berson gofrestru fel gwasanaeth cymorth cartref os yw wedi cyflwyno unigolyn i weithiwr gofal ac wedi ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau a nodir isod:

- Cyflwyno gweithiwr gofal ychwanegol neu wahanol os na fydd y person sy'n cael gofal yn fodlon ar y gweithiwr gofal presennol ac os bydd yn gofyn am weithiwr gofal ychwanegol neu wahanol. Bydd hyn yn digwydd am fod y person sy'n cael gofal wedi gofyn am weithiwr gofal ychwanegol neu wahanol ac nid o ganlyniad i waith monitro'r person a all fod wedi nodi bod angen newid.
- Darparu amrywiaeth o ganllawiau ymarfer (y cyfeirir atynt fel arfer fel 'gweithdrefnau') fel gwasanaeth ychwanegol i'r person sy'n cael gofal. Gall y

gweithiwr gofal ddilyn y gweithdrefnau hyn ar ôl iddo gael ei gyflogi os bydd y person yn ei gyfarwyddo i wneud hynny. Ni fydd y person a gyflwynodd y gweithiwr gofal yn monitro perfformiad y gweithiwr hwnnw mewn perthynas â'r gweithdrefnau hyn.

- Asesu anghenion yr unigolyn, ond dim ond er mwyn penderfynu ar y math o weithiwr gofal sydd ei angen neu'r gweithiwr gofal mwyaf addas. Neu efallai y bydd y person yn trefnu i rywun (y cyfeirir ato fe arfer fel gweithiwr achos neu asesydd) gynnal asesiad o anghenion. Nid yw hyn yr un peth â llunio cynllun gofal sy'n nodi'r gweithgareddau sydd eu hangen i ddarparu'r gofal person sydd ei angen. Er enghraifft, efallai y bydd y math hwn o asesiad yn pennu beth yw anghenion unigolion, ond nid sut y caiff yr anghenion hyn eu nodi. Gellir cynnal asesiad o'r fath ond dim ond er mwyn galluogi'r person i recriwtio a chyflwyno gweithiwr gofal a all fod ar gael am y cyfnod o amser sydd ei angen ac sy'n meddu ar y sgiliau sydd eu hangen. Nid yw'r asesiad yn un parhaus.
- Codi ffi 'untro' am gyflwyno'r gweithiwr gofal – er y gall y person ad-dalu'r ffi yn rhannol neu'n llawn os bydd y gweithiwr gofal neu'r person sy'n cael gofal yn terfynu eu cytundeb â'i gilydd. Gellir talu'r ffi drwy randaliadau a gall fod yn gysylltiedig â hyd y contract.
- Cysylltu â'r person sy'n cael gofal er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn fodlon ar y gwasanaeth cyflwyno, gan gynnwys addasrwydd y gweithiwr gofal a ddarparwyd. Unig ddiben y cyswllt hwn yw sicrhau ansawdd y broses gyflwyno, nid er mwyn monitro neu reoli neu gyfarwyddo'r gwasanaeth a ddarperir gan y gweithiwr gofal.
- Cytuno i gyflawni swyddogaeth cyflogres ar gyfer y person sy'n cyflogi'r gweithiwr. Ni ddylai'r swyddogaeth hon ddylanwadu ar gyfarwyddyd a rheolaeth y gwasanaeth a ddarperir mewn unrhyw ffordd. Dylai fod gwahaniaeth clir rhwng cyflwyno'r gweithiwr gofal a darparu'r gwasanaeth cyflogres. Yn ddelfrydol, bydd trefniant o'r fath o dan gontract ar wahân i'r un ar gyfer cyflwyno'r gweithiwr gofal, er mwyn pwysleisio natur ar wahân gweithgareddau'r person.
- Darparu amrywiaeth o becynnau hyfforddi i weithwyr gofal eu prynu. Dylai hyn fod yn gyfyngedig i sefyllfaoedd lle y caiff yr angen ei nodi gan y gweithiwr gofal. Nid yw hyn yn cynnwys y person sy'n cyflwyno'r gweithiwr gofal yn goruchwylio neu'n monitro'r hyfforddiant.

**Ble y gallaf gael cyngor pellach?**

Os byddwch yn ansicr a yw'r gwasanaeth rydych yn ei ddarparu yn dod o dan y diffiniad o wasanaeth cymorth cartref, efallai y byddwch am geisio cyngor cyfreithiol.

Gallwch hefyd gysylltu â'r Tîm Cofrestru drwy ffonio 0300 7900 126 neu e-bostio AGC@llyw.cymru

## Atodiad 5. Ardaloedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn perthynas â Gwasanaethau Cymorth Cartref

1. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Gwent**

    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
    - Cyngor Sir Fynwy
    - Cyngor Dinas Casnewydd
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

2. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Gogledd Cymru**

    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
    - Cyngor Sir y Fflint
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
    - Cyngor Sir Ynys Môn
    - Cyngor Sir Gwynedd
    - Cyngor Sir Ddinbych
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

3. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Caerdydd a'r Fro**

    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
    - Cyngor Dinas a Sir Caerdydd
    - Cyngor Bro Morgannwg.

4. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Gorllewin Morgannwg**

    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
    - Cyngor Dinas a Sir Abertawe
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

5. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Cwm Taf Morgannwg**

    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

6. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Gorllewin Cymru**

   - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
   - Cyngor Sir Penfro
   - Cyngor Sir Caerfyrddin
   - Cyngor Sir Ceredigion

7. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Powys**

   - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
   - Cyngor Sir Powys.

## Atodiad 6. Holiadur Addasrwydd Unigolyn Cyfrifol

**Cwestiwn 1.**
**Nodwch y trefniadau sydd gennych ar waith i benodi rheolwr addas ar gyfer y gwasanaeth. Beth yw eich dealltwriaeth o’ch dyletswyddau mewn perthynas â rhoi gwybod am y penodiad hwn?**

Bwriad y cwestiwn hwn yw asesu sut y bydd yr Unigolyn Cyfrifol dynodedig yn penodi rheolwr â diwydrwydd dyladwy, y trefniadau sydd ar waith os bydd y rheolwr hwnnw yn absennol o’r gwasanaeth a dealltwriaeth yr Unigolyn Cyfrifol o’r gwahanol ddyletswyddau sy’n berthnasol i roi gwybod am y penodiad.

**Cwestiwn 2.**
**Nodwch y systemau a’r prosesau sydd gennych ar waith i oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli, gan gynnwys pan fydd y rheolwr yn absennol o'r gwasanaeth.**

Bwriad y cwestiwn hwn yw asesu’r systemau sydd ar waith i’r Unigolyn Cyfrifol oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu; gan gynnwys adolygu a goruchwylio’r rheolwr gan ganolbwyntio ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth, a'r ffordd y caiff ei reoli. Dylai hyn gynnwys y trefniadau sydd ar waith ar gyfer adegau pan fydd y rheolwr yn absennol o'r gwasanaeth.

**Cwestiwn 3.**
**Nodwch sut rydych yn bwriadu cyflawni eich dyletswyddau mewn perthynas ag ymweld â’r gwasanaeth, gan gynnwys amlder yr ymweliadau hyn.**

Bydd hyn yn asesu sut mae’r Unigolyn Cyfrifol yn bwriadu cynnal ymweliadau monitro â’r gwasanaeth yn bersonol gan gynnwys siarad ag unigolion sy’n defnyddio’r gwasanaeth a’u cynrychiolwyr (os yw’n berthnasol) a’r staff.

**Cwestiwn 4.**
**Disgrifiwch y systemau a’r prosesau sydd ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys yr adolygiad o ansawdd y gofal. Dylai eich ateb gynnwys sut rydych yn ymgysylltu ag eraill fel rhan o’r prosesau hyn.**

Bwriad y cwestiwn hwn yw canfod sut mae’r Unigolyn Cyfrifol yn bwriadu monitro perfformiad y gwasanaeth mewn perthynas â'i ddatganiad o ddiben, gan gynnwys y trefniadau sydd ar waith ar gyfer casglu barn yr unigolion sy’n cael gofal a chymorth, ac unrhyw gynrychiolwyr yr unigolion hynny, am ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir a sut y gellir ei wella.

## Atodiad 7. Canllawiau Deddfwriaethol a Statudol

**Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016:**

**Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**

**Rheoliadau a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cartrefi Gofal, Gwasanaethau Cymorth Cartref, Gwasanaethau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd a Gwasanaethau Llety Diogel:**

**Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017**

**Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017**

**Canllawiau Statudol i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ar fodloni rheoliadau safon gwasanaeth**

**Rheoliadau a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu:**

**Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019**

**Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019**

**Canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu**

**Rheoliadau a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Maethu:**

**Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019**

**Canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau maethu**

**Rheoliadau a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Lleoli Oedolion**

**Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019**

**Canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau lleoli oedolion**

**Rheoliadau a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Eirioli:**

**Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019**

**Canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau eirioli**

**Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023 (legislation.gov.uk)**

**Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023**

**Rheoliadau'r Gofrestr o Ddarparwyr Gwasanaethau (Gwybodaeth Ragnodedig a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023 (legislation.gov.uk)**

**Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024**

## Atodiad 8. Crynodeb o'r wybodaeth a'r dogfennau sydd eu hangen yn y ffurflen gais

**Gwybodaeth sydd ei hangen yn y ffurflen gais**

**Gwasanaethau seiliedig ar Lety**

Tystysgrif Rheolaeth Adeiladu neu dystiolaeth yn dangos nad oes ei hangen
Prawf o Ganiatâd Cynllunio neu dystiolaeth yn dangos nad oes ei angen
Asesiad Risg Tân
Tystysgrif comisiynu system llethu/anwedd dŵr/chwistrellu dŵr ar gyfer tân i ddangos ei bod wedi'i gosod
Tystysgrif busnes bwyd/tystiolaeth bod cais am dystysgrif wedi'i wneud
Tystiolaeth o berchnogaeth neu gytundeb les ar gyfer y safle

| **Gwybodaeth am ddarparwr y gwasanaeth** | |
|---|---|
| **Unigolion** | Enw<br>Cyfeiriad<br>Dyddiad geni<br>Manylion cyswllt<br>Profiad a chymwysterau proffesiynol<br>Hanes cyflogaeth<br>Manylion unrhyw gysylltiad blaenorol neu bresennol â gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU<br>Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill<br>Rhif tystysgrif y DBS neu fanylion Gwasanaeth Diweddaru'r DBS. (mae'n rhaid bod y dystysgrif wedi'i chyhoeddi lai na thri mis cyn i'r cais gael ei gyflwyno neu mae'n rhaid bod yr ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer Gwasanaeth Diweddaru y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) |
| **Cwmnïau Cyfyngedig**<br>**Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig**<br>**Cwmnïau Cyfyngedig Preifat**<br>**Cwmnïau Elusennol**<br>**Sefydliadau Corfforedig Elusennol** | Enw'r sefydliad<br>Cyfeiriad y sefydliad<br>Rhif y cwmni/Rhif yr elusen<br>Manylion cyswllt y sefydliad<br>Cysylltiadau â chwmnïau eraill |

| | |
|---|---|
| **Cyrff Corfforaethol Eraill** | Manylion pob swyddog sefydliadol, gan gynnwys: enw, dyddiad geni, manylion cyswllt a manylion unrhyw gysylltiad arall â gwasanaethau rheoleiddiedig<br>Manylion unrhyw gysylltiad blaenorol neu bresennol â gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU<br>Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill<br>Dynodiad yr Unigolyn Cyfrifol |
| **Pwyllgor**<br>**Ymddiriedolaeth Elusennol**<br>**Corff Anghorfforedig Arall** | Enw'r sefydliad<br>Cyfeiriad y sefydliad<br>Manylion cyswllt y sefydliad<br>Cysylltiadau â sefydliadau eraill<br>Manylion pob swyddog sefydliadol, gan gynnwys: enw, dyddiad geni, manylion cyswllt a manylion unrhyw gysylltiad arall â gwasanaethau rheoleiddiedig<br>Manylion unrhyw gysylltiad blaenorol neu bresennol â gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU<br>Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill<br>Dynodiad yr Unigolyn Cyfrifol |
| **Partneriaethau** | Enw'r bartneriaeth<br>Cyfeiriad y bartneriaeth<br>Manylion cyswllt y bartneriaeth<br>Manylion y partner, gan gynnwys: enw, dyddiad geni, manylion cyswllt a manylion unrhyw gysylltiad arall â gwasanaethau rheoleiddiedig<br>Manylion unrhyw gysylltiad blaenorol neu bresennol â gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU<br>Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill<br>Dynodiad yr Unigolyn Cyfrifol |

| Gwybodaeth am yr Unigolyn Cyfrifol | |
|---|---|
| | Enw<br>Cyfeiriad<br>Dyddiad geni<br>Manylion cyswllt<br>Profiad a chymwysterau proffesiynol<br>Hanes cyflogaeth<br>Manylion unrhyw gysylltiad blaenorol neu bresennol â gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU<br>Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill<br>Rhif tystysgrif y DBS neu fanylion Gwasanaeth Diweddaru'r DBS. (mae'n rhaid bod y dystysgrif wedi'i chyhoeddi lai na thri mis cyn i'r cais gael ei gyflwyno neu mae'n rhaid bod yr ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer Gwasanaeth Diweddaru y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) |
| **Gwybodaeth am y gwasanaeth** | |
| **Gwasanaethau seiliedig ar lety (gwasanaethau cartrefi gofal, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig)** | Enw<br>Cyfeiriad<br>Manylion cyswllt<br>Uchafswm nifer y lleoedd yn y gwasanaeth<br>Ystod oedran yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth<br>Yr amrywiaeth o anghenion rydych yn bwriadu darparu gwasanaeth ar eu cyfer<br>Rheolwr y gwasanaeth, gan gynnwys ei enw, ei ddyddiad geni, a'i rif cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru |
| **Gwasanaethau cymunedol (gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu,** | Enw<br>Yr ardal ddaearyddol lle rydych yn bwriadu darparu'r gwasanaeth<br>Cyfeiriad(au) swyddfa |

| | |
|---|---|
| **gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli)** | Manylion cyswllt<br>Ystod oedran yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth (lle y bo'n briodol)<br>Yr amrywiaeth o anghenion rydych yn bwriadu darparu gwasanaeth ar eu cyfer (lle y bo'n briodol)<br>Nifer cyfartalog yr oriau o gymorth cartref rydych yn bwriadu eu darparu bob wythnos (lle y bo'n briodol)<br>Rheolwr y gwasanaeth, gan gynnwys ei enw, ei ddyddiad geni, a'i rif cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (lle y bo'n briodol) |

**Dogfennau sydd eu hangen yn y ffurflen gais**

<table>
<tr><th>Teitl y Ddogfen</th><th>Pwy ddylai lanlwytho'r dogfennau hyn</th></tr>
<tr><td>Datganiad o Ddiben</td><td>Ar gyfer pob gwasanaeth</td></tr>
<tr><td>Cynllun strwythurol y sefydliad</td><td>Pob ymgeisydd heblaw Unigolion</td></tr>
<tr><td>Cynlluniau Llawr</td><td>Gwasanaethau seiliedig ar Lety</td></tr>
<tr><td>Geirda Meddygol<br>Os byddwch yn ei chael hi'n anodd cael geirda meddygol, cysylltwch ag AGC am gyngor.</td><td>Mae angen i bob Unigolyn Cyfrifol lanlwytho'r ddogfen hon. Os na ellir cael geirda meddygol, bydd AGC yn ystyried Hunanddatganiad, a gall ofyn am ragor o wybodaeth os oes angen.</td></tr>
<tr><td>Geirda Banciwr</td><td rowspan="3">Pob ymgeisydd heblaw Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol</td></tr>
<tr><td>Cynllun Busnes</td></tr>
<tr><td>Llif Arian Parod Rhagamcanol</td></tr>
<tr><td>Cyfrifon blynyddol y ddwy flynedd ddiwethaf</td><td>Pob cwmni cyfyngedig, cwmni cyfyngedig cyhoeddus, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, cwmni elusennol, cwmni corfforedig elusennol neu unrhyw gorff corfforaethol arall.</td></tr>
</table>

## Atodiad 9: Fframwaith Penderfynu ynghylch Cofrestriad

### A yw'r ffurflen gais yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol?

| Yr hyn rydym yn edrych arno | Pam | Ein disgwyliad yw: |
|---|---|---|
| **Ffurflen gais** | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Cofrestru | • Bod yr holl gwestiynau wedi'u cwblhau |
| | | • Bod y wybodaeth a roddwyd yn ddilys, e.e. Bod rhif tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gywir a bod cais wedi'i wneud am y gwiriad cywir, h.y. ar gyfer oedolion neu blant sy'n agored i niwed. |
| | | • Mae'r holl ddogfennau gofynnol wedi'u darparu |

### A ydym yn fodlon bod yr ymgeisydd yn 'berson addas a phriodol'?

| Yr hyn rydym yn edrych arno | Pam | Ein disgwyliad yw: |
|---|---|---|
| **Ffurflen gais** | Croeswirio'r wybodaeth a roddwyd â ffynonellau tystiolaeth eraill | • Bod yr ymgeisydd wedi dewis y math cywir o ddarparwr. |
| **Tŷ'r Cwmnïau** | Cadarnhau endid cyfreithiol | • Bod yr endid cyfreithiol wedi'i gofrestru'n gwmni. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Bod y cyfarwyddwyr a restrir ar y ffurflen gais wedi'u cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau.<br>• Bod yr holl wybodaeth arall a roddwyd yn cyfateb i'r wybodaeth a ddelir gan Dŷ'r Cwmnïau. |
| **Y Comisiwn Elusennol** | Cadarnhau statws elusennol | • Ei fod wedi'i gofrestru'n elusen.<br>• Bod yr unigolion a restrir ar y ffurflen gais wedi'u cofrestru'n ymddiriedolwyr gyda'r Comisiwn Elusennau.<br>• Bod yr holl wybodaeth a roddwyd yn cyfateb i'r wybodaeth a ddelir gan y Comisiwn Elusennau. |
| **Cyrff rheoleiddio eraill** | Asesu addasrwydd | • Os yw'r darparwr hefyd yn meddu ar gofrestriad proffesiynol, fel cofrestriad â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, nad oes unrhyw faterion addasrwydd i ymarfer.<br>• Os yw'r darparwr hefyd wedi'i gofrestru â chorff rheoleiddio arall, er enghraifft y Comisiwn Ansawdd Gofal, nad oes unrhyw ffactorau eraill a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch ei addasrwydd. |
| **Datganiadau**<br>**(Ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref, mae hyn yn cynnwys yr ymgymeriad yn a.8 o'r Ddeddf)** | Asesu addasrwydd | • Bod y datganiad wedi'i lofnodi gan unigolyn sydd ag awdurdod digonol i wneud hynny.<br>• Bod yr ymgeisydd wedi cadarnhau addasrwydd y darparwr.<br>• Ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref, bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ddarparu’r gwasanaeth yn unol ag a.8 o'r Ddeddf. |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth a ddelir gan AGC (CaSSI)** | Asesu addasrwydd | • Nad oes unrhyw ffactorau eraill a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch addasrwydd. |

**A yw'r Unigolyn Cyfrifol dynodedig yn addas?**

| Yr hyn rydym yn edrych arno | Pam | Ein disgwyliad yw: |
|---|---|---|
| **Ffurflen gais a**<br>**Chynllun strwythurol y sefydliad (heb gynnwys unigolion)** | Asesu cymhwysedd | • Bod yr unigolyn dynodedig yn bodloni'r meini prawf cymhwyso – gweler Pennod # y Canllawiau hyn.<br>• Bod cynllun strwythurol y sefydliad yn dangos yn glir swyddogaeth yr unigolyn o ran llywodraethu |
| **Y ddogfen hunaniaeth** | Prawf adnabod | • Y bydd yr unigolyn dynodedig yn dod â phrawf adnabod ffotograffig i'w gyfweliad addasrwydd. Mae trwydded yrru neu basbort yn fathau derbyniol o brawf adnabod. |
| **Tystiolaeth o gymwysterau (os ydynt wedi'u rhestru ar y ffurflen gais)** | Cadarnhau cymwysterau | • Os yw'r unigolyn dynodedig wedi rhestru cymwysterau perthnasol ar y ffurflen gais, rhaid iddo ddod â phrawf i'r rhain i'w gyfweliad addasrwydd. |
| **Adroddiad yr ymarferydd meddygol neu unigolyn cyfatebol** | Asesu addasrwydd | • Nad oes unrhyw faterion wedi'u nodi o ran gallu'r unigolyn i gyflawni'r rôl. |
| **Tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** | Asesu addasrwydd | • Bod yr unigolyn wedi datgan unrhyw droseddau/euogfarnau sydd wedi'u nodi ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br>• Bod tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gysylltiedig â'r maes, h.y. plant neu oedolion agored i niwed. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Nad oes unrhyw ffactorau eraill a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch addasrwydd. |
| **Geirdaon** | Asesu addasrwydd | • Nad yw'r geirdaon a ddarparwyd yn nodi unrhyw faterion o ran addasrwydd – gweler Pennod # y Canllawiau hyn. |
| **Gwybodaeth gan gyrff rheoleiddio eraill** | Asesu addasrwydd | • Os yw'r unigolyn dynodedig hefyd yn meddu ar gofrestriad proffesiynol, fel cofrestriad â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, nad oes unrhyw faterion addasrwydd i ymarfer.<br>• Os yw'r unigolyn dynodedig yn gysylltiedig â gwasanaeth arall/gwasanaethau eraill sydd wedi'i gofrestru/wedi'u cofrestru â chorff rheoleiddio arall, er enghraifft y Comisiwn Ansawdd Gofal, nad oes unrhyw ffactorau eraill a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch ei addasrwydd. |
| **Datganiadau** | Asesu addasrwydd | • Bod yr unigolyn dynodedig wedi datgan bod yr holl wybodaeth a roddwyd yn gywir. |
| **Holiadur Unigolyn Cyfrifol** | Asesu addasrwydd | • Bod yr holl gwestiynau wedi'u cwblhau.<br>• Bod yr unigolyn dynodedig yn meddu ar ddealltwriaeth foddhaol o'i ddyletswyddau o dan y Rheoliadau ac wedi dangos ei fod yn debygol o gyflawni'r dyletswyddau hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfweliad â'r Unigolyn Cyfrifol** | Asesu addasrwydd | • Bod yr holl gwestiynau ategol a nodwyd yn dilyn Holiadur yr Unigolyn Cyfrifol wedi'u hateb yn foddhaol, yn ei barn ni.<br>• Bod yr holl ddogfennau gofynnol (e.e. prawf adnabod) wedi'u darparu.<br>• Yr aed i'r afael ag unrhyw faterion o ran addasrwydd. |
| **Penodi Rheolwr** | Asesu addasrwydd | • Bod rheolwr wedi'i benodi a'i fod yn meddu ar y cofrestriad priodol â Gofal Cymdeithasol Cymru.<br>• Os nad oes rheolwr wedi'i benodi, bod trefniadau boddhaol ar waith i reolwr gael ei benodi cyn i'r gwasanaeth ddod yn weithredol. Caiff hyn ei drafod â'r unigolyn yn ystod cyfweliad yr Unigolyn Cyfrifol. |

**Cydymffurfiaeth â gofynion y rheoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall?**

| **Yr hyn rydym yn edrych arno** | **Pam** | **Ein disgwyliad yw:** |
|---|---|---|
| **Datganiad o ddiben** | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau | • Bod y Datganiad o Ddiben yn cydymffurfio ag Atodlen 2 i'r Rheoliadau Cofrestru a'n Canllaw ar Lunio Datganiad o Ddiben. |
| **Polisïau a Gweithdrefnau** | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau | • Bod yr ymgeisydd yn darparu copi o'r polisïau a'r gweithdrefnau gorfodol sy'n ofynnol gan y Rheoliadau yn ystod yr arolygiad cofrestru. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Bod yr ymgeisydd yn darparu copi o unrhyw bolisïau a gweithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol yn unol â'r math o wasanaeth, yn ystod yr arolygiad cofrestru.<br>• Bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn bodloni gofynion y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol.<br>• Bod gennym yr opsiwn i fynd â chopi o'r polisïau a'r gweithdrefnau gyda ni a'u dychwelyd maes o law. |
| **Asesiad arolygu cofrestriad (Atodiad ) – bydd hyn yn cynnwys cynllunio/tân/hylendid bwyd ac ati** | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau | • Bod y safle yn adlewyrchu'r cynllun llawr a ddarparwyd fel rhan o'r cais.<br>• Y bydd dyluniad a chynllun y safle a'r cyfleusterau a'r cyfarpar sydd ar gael yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau gorau posibl, ac yn hyrwyddo a chynnal eu hannibyniaeth, diogelwch a llesiant. |
| **Tystysgrif yswiriant** | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau | • Bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith ar gyfer y gwasanaeth dan sylw, a'i fod yn gyfredol ac yn cyfrif am golledion o dan atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd cyflogwr. |
| **Tystiolaeth o berchnogaeth neu gytundeb les** | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau | • Bod gan yr ymgeisydd hawl gyfreithiol i ddefnyddio'r safle i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig.<br>• Os yw'r ymgeisydd yn rhentu neu'n lesio'r safle, bod y cytundeb yn cynnwys cyfnod rhybudd digonol, er enghraifft ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, byddem yn disgwyl cyfnod rhybudd o chwe mis. |

| | | |
|---|---|---|
| **Asesiad Ariannol (ac eithrio Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol)** | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau | • Nad oes unrhyw bryderon yn ymwneud â hyfywedd ariannol yr ymgeisydd i ddarparu'r gwasanaeth a nodir yn y cais a'r Datganiad o Ddiben. |

# Atodiad 10. Y Broses Sylwadau

## Proses Sylwadau AGC

## Terminoleg

**"Gwasanaeth(au) rheoleiddiedig"** – yn cyfeirio at unrhyw rai o'r mathau o wasanaethau a ddiffinnir gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf) fel gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref.
**"Gwasanaeth(au)"** – yn cyfeirio at wasanaeth unigol sydd wedi'i gofrestru o dan y Ddeddf neu Fesur Pant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (y Mesur). Er enghraifft cartref gofal gwarchodwr plant neu ddarpariaeth gofal dydd.
**"Hysbysiad"** – yn cyfeirio at Hysbysiad o Fwriad, Hysbysiad o Gynnig neu Hysbysiad Gwella, oni nodir fel arall.

## Y fframwaith cyfreithiol

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddilyn proses benodol yn dibynnu ar y math o gamau gweithredu rydym yn cynnig eu cymryd.

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi **Hysbysiad o Gynnig** mewn perthynas â'r camau gweithredu canlynol:

- Gwrthod cais i gofrestru
- Cymeradwyo cais i gofrestru gan osod amodau
- Gwrthod cais i amrywio amodau cofrestru (gan gynnwys ychwanegu neu ddileu gwasanaeth neu wasanaeth rheoleiddiedig)
- Gosod amodau ar gofrestriad darparwr gwasanaeth
- Amrywio amodau ar gofrestriad darparwr gwasanaeth (ac eithrio amrywio'r Unigolyn Cyfrifol)
- Ymateb i gais darparwr gwasanaeth i amrywio neu ddileu amod drwy gynnig amrywio amodau ar delerau gwahanol neu osod amod gwahanol.

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi **Hysbysiad Gwella** mewn perthynas â'r camau gweithredu canlynol:

- Canslo darparwr gwasanaeth
- Dileu gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth o gofrestriad darparwr gwasanaeth
- Canslo dynodiad unigolyn cyfrifol

*Noder – nid yw'r gweithdrefnau hyn yn gymwys i unrhyw gamau brys a gymerir gennym.

**<u>Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010</u>**

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi **Hysbysiad o Fwriad** mewn perthynas â'r camau gweithredu canlynol:

- Gwrthod cais i gofrestru
- Gosod amod newydd ar gofrestriad person
- Amrywio neu ddileu unrhyw amod a osodwyd ar gofrestriad person
- Gwrthod cais i amrywio neu ddileu unrhyw amod o'r fath
- Canslo cofrestriad person

### Yr hawl i wneud sylwadau

Bydd pob Hysbysiad y byddwn yn ei gyhoeddi yn nodi'r camau gweithredu rydym yn bwriadu eu cymryd, y rheswm/rhesymau dros gymryd y camau gweithredu a therfyn amser i'r sawl sy'n derbyn yr Hysbysiad wneud sylwadau i ni. Gall yr amserlen ar gyfer gwneud sylwadau amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ond ym mhob achos, mae'n rhaid iddi fod o leiaf 28 diwrnod ar ôl i'r Hysbysiad gael ei gyhoeddi.

Dylai'r rhai sy'n cyflwyno sylwadau i ni nodi hynny'n glir yn eu gohebiaeth â ni. Byddwn yn ceisio egluro statws unrhyw ohebiaeth a geir mewn ymateb i Hysbysiad os nad yw'n glir a yw'r person yn gwneud sylwadau.

Gellir gwneud sylwadau naill ai yn ysgrifenedig neu ar lafar. Nodir isod y broses ar gyfer y ddau.
Dylid cyflwyno sylwadau gydag unrhyw dystiolaeth ategol y dibynnir arni. Mae peidio â gwneud hyn yn debygol o effeithio ar ein hystyriaeth o'r sylwadau neu achosi oedi.

### Yr amserlen

Pan fydd y sylwadau wedi dod i law, ein nod fydd ymateb drwy gyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad/Hysbysiad o Ganslo o fewn 28 diwrnod i'r terfyn amser ar gyfer gwneud sylwadau. Nid yw hyn yn golygu 28 diwrnod ar ôl i'r sylwadau ddod i law. Os na allwn ymateb o fewn 28 diwrnod, byddwn yn rhoi gwybod i'r sawl sydd wedi derbyn yr Hysbysiad. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad o fewn 56 diwrnod i'r terfyn amser ar gyfer gwneud sylwadau ac yn esbonio'r rheswm dros yr oedi.

### Y Broses

Ar ôl i'r sylwadau ddod i law, caiff Penderfynwr ei ddyrannu. Bydd y Penderfynwr yn rhywun ar yr un radd â'r arolygydd a lofnododd yr Hysbysiad, neu radd uwch, ac ni fydd wedi bod yn rhan o'r penderfyniad i gymryd y camau arfaethedig.

<u>Sylwadau ysgrifenedig</u>

Gellir cyflwyno'r rhain drwy'r post neu e-bost, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol. Dylid cymryd gofal i ddiogelu data personol neu sensitif unigolion yn y gwasanaeth.

Sylwadau ar lafar

Dylai'r rhai sy'n dymuno gwneud sylwadau ar lafar roi gwybod i ni cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Bydd y Penderfynwr yn gwrando ar sylwadau ar lafar ar adeg ac mewn lleoliad sy'n gyfleus i bawb. Dylai hyn ddigwydd o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r sawl sydd wedi derbyn yr Hysbysiad roi gwybod i ni ei fod yn dymuno gwneud sylwadau ar lafar.

Gall y sawl sydd wedi derbyn yr Hysbysiad ddod i'r gwrandawiad i gyflwyno ei wrthwynebiadau yn bersonol, neu gall drefnu i gynrychiolydd wneud hynny ar ei ran. Fel arfer, byddai disgwyl i'r person ddod i'r gwrandawiad gyda'i gynrychiolydd.

Os, am unrhyw reswm, na fydd y sawl sydd wedi derbyn yr Hysbysiad yn dod i'r gwrandawiad ond ei fod yn dymuno i'w gynrychiolydd barhau i wneud gwrthwynebiadau ar lafar yn ei absenoldeb, bydd angen i ni gael awdurdodiad ysgrifenedig gan y sawl sydd wedi derbyn yr Hysbysiad i'r perwyl hwn.
Nid yw'r gwrandawiad sylwadau ar lafar yn cynnwys unigolion yn rhoi tystiolaeth nac yn galw tystion, ac nid oes unrhyw ddarpariaeth i'r arolygydd na'r rheolwr sy'n gyfrifol am roi'r Hysbysiad fod yn bresennol.

Gwneud penderfyniadau

Bydd y Penderfynwr yn ystyried yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol i'r cam gweithredu arfaethedig, gan gynnwys:

- yr Hysbysiad sy'n cynnig y cam gweithredu,
- unrhyw dystiolaeth ategol y dibynnir arni ar gyfer cymryd y cam gweithredu,
- y sylwadau a wnaed gan y sawl sydd wedi derbyn yr Hysbysiad,
- unrhyw dystiolaeth ategol a roddwyd gan y sawl sydd wedi derbyn yr Hysbysiad.

Fel rhan o'r broses o ddod i benderfyniad, gall y Penderfynwr ofyn am wybodaeth ychwanegol, gan gynnwys gofyn am arolygiad o'r gwasanaeth(au). Caiff canlyniad yr arolygiad ei ystyried ar ffurf adroddiad arolygu drafft. Oherwydd yr amserlenni y mae'n rhaid i ni gadw atynt wrth ystyried sylwadau, nid oes digon o amser i aros i'r adroddiad gael ei gyhoeddi cyn ystyried canlyniad yr arolygiad. Os bydd y Penderfynwr yn cadarnhau'r Hysbysiad, a'r sawl sydd wedi derbyn yr Hysbysiad yn herio'r adroddiad drafft, dylai hyn gael ei nodi mewn unrhyw apêl a wneir i'r Tribiwnlys.
Gall y Penderfynwr geisio cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol ar faterion yn ymwneud â chyfraith a gweithdrefn. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y Penderfynwr yw dod i benderfyniad.

Canlyniadau yn dilyn Hysbysiad o Gynnig

Ar ôl dod i benderfyniad, rhaid i'r Penderfynwr gyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad yn nodi ei benderfyniad a'r rheswm/rhesymau drosto. Gall y Penderfynwr naill ai:

- gadarnhau'r Hysbysiad, neu
- gadarnhau'r Sylwadau

Canlyniadau yn dilyn Hysbysiad Gwella

Gall sylwadau a wneir mewn perthynas â Hysbysiad Gwella herio'r rhesymau dros gyhoeddi Hysbysiad a/neu ddadlau bod y gwasanaeth wedi cydymffurfio â gofynion yr Hysbysiad.

Yn gyntaf, rhaid i Benderfynwr ystyried a yw'n fodlon bod y rhesymau dros gyhoeddi'r Hysbysiad yn ddilys ar y pryd. Os na fydd y Penderfynwr yn fodlon bod y rhesymau dros gyhoeddi'r Hysbysiad yn ddilys, yna rhaid tynnu'r Hysbysiad yn ôl. Caiff y derbynnydd ei hysbysu'n ysgrifenedig am y penderfyniad hwn.

Os bydd y Penderfynwr yn fodlon bod y rhesymau dros gyhoeddi'r Hysbysiad yn ddilys, yna bydd yn rhaid iddo symud ymlaen i ystyried a fodlonwyd y gofyniad/gofynion a nodwyd yn yr Hysbysiad o fewn yr amserlen benodedig.

Os bydd y Penderfynwr yn fodlon y bodlonwyd y gofyniad/gofynion a nodwyd yn yr Hysbysiad, bydd yn rhaid iddo gyhoeddi Hysbysiad yn rhoi gwybod i'r derbynnydd bod y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei dynnu'n ôl.

Os na fydd y Penderfynwr yn fodlon y bodlonwyd y gofyniad/gofynion a nodwyd yn yr Hysbysiad, bydd y canlyniadau sydd ar gael yn amrywio yn dibynnu ar y math o gam gweithredu a gynigir.

Os mai'r cam gweithredu arfaethedig yw canslo cofrestriad darparwr gwasanaeth neu ddileu gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth o gofrestriad darparwr gwasanaeth ac nad yw'r Penderfynwr yn fodlon bod y wybodaeth a nodwyd yn yr Hysbysiad wedi dod i law, rhaid iddo gadarnhau'r Hysbysiad.

Os mai'r cam gweithredu arfaethedig yw **canslo cofrestriad darparwr gwasanaeth neu ddileu gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth o gofrestriad darparwr gwasanaeth** ac nad yw'r Penderfynwr yn fodlon bod y cam **gweithredu** a nodwyd yn yr Hysbysiad wedi cael ei gymryd, gall y Penderfynwr **naill ai:**

- cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad i gadarnhau'r cam gweithredu arfaethedig, neu
- cyhoeddi Hysbysiad yn rhoi gwybod i'r darparwr gwasanaeth nad yw'r cam gweithredu wedi cael ei gymryd, a phennu dyddiad newydd ar gyfer cymryd y cam gweithredu. Ar ôl y dyddiad hwn, dylid cynnal arolygiad i asesu a yw'r cam gweithredu a nodwyd yn yr Hysbysiad gwreiddiol wedi cael ei gymryd.

Os mai'r cam gweithredu arfaethedig yw **canslo dynodiad Unigolyn Cyfrifol** ac nad yw'r Penderfynwr yn fodlon bod y wybodaeth a nodwyd yn yr Hysbysiad wedi cael ei darparu neu nad yw'r cam gweithredu gofynnol wedi cael ei gymryd, **gall** gyhoeddi Hysbysiad o Ganslo. Rhaid i'r Hysbysiad o Ganslo gael ei gyhoeddi i ddarparwr y gwasanaeth a'r Unigolyn Cyfrifol.

Canlyniadau yn dilyn Hysbysiad o Fwriad

Ar ôl dod i benderfyniad, rhaid i'r Penderfynwr gyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad yn nodi ei benderfyniad a'r rheswm/rhesymau drosto. Gall y Penderfynwr naill ai:

- gadarnhau'r Hysbysiad, neu
- gadarnhau'r Sylwadau

**Apeliadau**

Os bydd gan y sawl sy'n derbyn yr Hysbysiad hawl i apelio i'r Tribiwnlys Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd hyn wedi'i nodi'n glir ar yr Hysbysiad o Benderfyniad.

# Atodiad 11. Gwasanaethau Rheoleiddiedig o dan y Ddeddf

### Gwasanaethau cartrefi gofal

(1) *"Gwasanaeth cartref gofal"* yw'r ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal mewn man yng Nghymru, i bersonau oherwydd eu hyglwyfedd neu eu hangen.

(2) Ond nid yw llety ynghyd â nyrsio neu ofal a ddarperir yn y mannau a ganlyn yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal—

(a) mewn ysbyty.
(b) ysgol (ond gweler is-baragraff (3));
(c) canolfan breswyl i deuluoedd
(d) man sy'n darparu gwasanaeth llety diogel;
(e) man sy'n darparu llety ar gyfer oedolyn a drefnir fel rhan o wasanaeth lleoli oedolion

(3) Mae llety ynghyd â nyrsio neu ofal a ddarperir mewn ysgol yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal os, ar yr adeg y darperir llety ar gyfer plant yn yr ysgol—

(a) yw llety wedi ei ddarparu yn yr ysgol neu o dan drefniadau a wneir gan berchennog yr ysgol ar gyfer o leiaf un plentyn am fwy na 295 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dod o fewn y 24 mis blaenorol, neu
(b) bwriedir i lety o'r fath gael ei ddarparu ar gyfer o leiaf un plentyn am fwy na 295 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dod o fewn y 24 mis dilynol.

(4) Nid yw'r ddarpariaeth o lety a gofal i blentyn gan riant, perthynas neu riant maeth yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal.

(5) Yn is-baragraff (2)(b), mae i *"ysgol"* yr ystyr a roddir i "school" gan adran 4 o Ddeddf Addysg 1996 (p.56).

(6) Yn is-baragraff (4), ystyr *"rhiant"* yw person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn (o fewn yr ystyr a roddir i "parent" a "parental responsibility" gan adran 3 o Ddeddf Plant 1989 (p.41)).

(7) At ddibenion is-baragraff (4) mae person yn rhiant maeth mewn perthynas â phlentyn os yw'r person—

(a) yn rhiant maeth awdurdod lleol, neu
(b) yn maethu'r plentyn yn breifat.

### Gwasanaethau llety diogel

*"Gwasanaeth llety diogel"* yw'r ddarpariaeth o lety at ddiben cyfyngu ar ryddid plant mewn mangreoedd preswyl yng Nghymru lle y darperir gofal a chymorth i'r plant hynny.

**Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd**

(1) A "Gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd" yw'r ddarpariaeth o lety ar gyfer plant a'u rhieni mewn man yng Nghymru—

(a) lle y mae galluedd y rhieni i ymateb i anghenion y plant ac i ddiogelu eu llesiant yn cael ei fonitro neu ei asesu, a
(b) lle y rhoddir i'r rhieni unrhyw ofal a chymorth yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol

(2) Yn is-baragraff (1), ystyr *"rhiant"* mewn perthynas â phlentyn yw unrhyw berson sy'n gofalu am y plentyn.

**Gwasanaethau mabwysiadu**

Mae *"gwasanaeth mabwysiadu"* yn wasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan—

(a) cymdeithas fabwysiadu o fewn ystyr "adoption society" yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p.38) sy'n sefydliad gwirfoddol o fewn ystyr y Ddeddf honno, neu

(b) asiantaeth cymorth mabwysiadu o fewn yr ystyr a roddir i "adoption support agency" gan adran 8 o'r Ddeddf honno.

**Gwasanaethau maethu**

Ystyr "gwasanaeth maethu" yw unrhyw wasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan berson ac eithrio awdurdod lleol sy'n gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu sy'n cynnwys y naill neu'r llall o'r canlynol—

(a) lleoli plant gyda rhieni maeth awdurdod lleol;

(b) arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â'r lleoliad hwnnw.

**Gwasanaethau lleoli oedolion**

(1) Ystyr *"gwasanaeth lleoli oedolion"* yw gwasanaeth a gynhelir (pa un ai er elw ai peidio) gan awdurdod lleol neu berson arall at ddibenion lleoli oedolion gydag unigolyn yng Nghymru o dan gytundeb gofalwr (ac mae'n cynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer recriwtio, hyfforddi a goruchwylio unigolion o'r fath).

(2) Yn is-baragraff (1) ystyr *"cytundeb gofalwr"* yw cytundeb ar gyfer darparu gan unigolyn lety yng nghartref yr unigolyn ynghyd â gofal a chymorth ar gyfer hyd at dri oedolyn.

**Gwasanaethau eirioli**

(1) Mae *"gwasanaeth eirioli"* yn wasanaeth a bennir at ddibenion y paragraff hwn gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(2) Ni chaniateir i wasanaeth gael ei bennu'n wasanaeth eirioli oni bai bod y gofynion a ganlyn wedi eu bodloni mewn perthynas â'r gwasanaeth, ac i'r graddau y maent wedi eu bodloni felly.

(3) Y gofyniad cyntaf yw bod y gwasanaeth yn wasanaeth a gynhelir (pa un ai er elw ai peidio) at ddiben cynrychioli safbwyntiau unigolion, neu helpu unigolion i fynegi'r safbwyntiau hynny, mewn cysylltiad â materion sy'n ymwneud ag anghenion yr unigolion hynny am ofal a chymorth (gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag asesu pa un a yw'r anghenion hynny'n bodoli).

(4) Yr ail ofyniad yw nad yw'r gwasanaeth yn cael ei gynnal gan berson sydd, yng nghwrs gweithgaredd cyfreithiol (o fewn yr ystyr a roddir i "legal activity" yn Neddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 (p.29))—

(a) yn berson awdurdodedig at ddibenion y Ddeddf honno, neu

(b) yn Gyfreithiwr Ewropeaidd (o fewn yr ystyr a roddir i "European lawyer" yng Ngorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Gwasanaethau Cyfreithwyr) (O.S. 1978/1910)).

(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-baragraff (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

(6) Ond nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i reoliadau—

(a) sy'n diwygio rheoliadau eraill a wneir o dan yr is-baragraff hwnnw, ac
(b) nad ydynt, ym marn Gweinidogion Cymru, yn rhoi effaith i unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau sydd i'w diwygio.

**Gwasanaethau cymorth cartref**

(1) *"Gwasanaeth cymorth cartref"* yw'r ddarpariaeth o ofal a chymorth i berson nad yw, oherwydd ei hyglwyfedd neu ei angen (ac eithrio hyglwyfedd neu angen nad yw ond yn codi oherwydd bod y person yn ifanc), yn gallu ei ddarparu ar ei gyfer ef ei hun ac a ddarperir yn y man yng Nghymru lle y mae'r person yn byw (gan gynnwys gwneud trefniadau ar gyfer neu ddarparu gwasanaethau mewn cysylltiad â darpariaeth o'r fath).

(2) Ond nid yw'r ddarpariaeth o ofal a chymorth yn gyfystyr â gwasanaeth cymorth cartref—

(a) os y'i darperir gan unigolyn heb ymglymiad ymgymeriad sy'n gweithredu fel asiantaeth gyflogi neu fusnes cyflogi (o fewn yr ystyr a roddir i "employment agency" ac "employment business" gan adran 13 o Ddeddf Asiantaethau Cyflogi 1973 (p.35)), ac sy'n gweithio'n gyfan gwbl o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y person sy'n cael y gofal a'r cymorth, neu

(b) os y'i darperir—

(i) mewn man lle y darperir gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel, gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd neu lety a drefnir fel rhan o wasanaeth lleoli oedolion, neu
(ii) mewn ysbyty.

(3) Nid yw person sy’n cyflwyno unigolion sy’n darparu gwasanaeth cymorth cartref i unigolion a all ddymuno ei gael ond nad oes ganddo unrhyw rôl barhaus yng nghyfarwyddyd neu reolaeth y gofal a’r cymorth a ddarperir i’w drin fel pe bai’n darparu gwasanaeth cymorth cartref (ni waeth pa un a yw’r cyflwyniad er elw ai peidio).

**Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig**

Mae gwasanaeth preswyl ysgolion arbennig yn darparu llety ynghyd â gwasanaeth gofal neu nyrsio mewn ysgol arbennig yng Nghymru i ddisgyblion yr ysgol.

Mae ysgol arbennig yn golygu ysgol, p'un a gaiff ei chynnal gan awdurdod lleol ai peidio, lle y caiff yr holl ddarpariaeth addysgol neu'r rhan fwyaf ohoni ei threfnu'n arbennig er mwyn cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol i unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol.

# Atodiad 12. Eithriadau Cofrestru

## Gwasanaethau cartrefi gofal

**2** (1) Nid yw'r pethau a ganlyn i gael eu trin fel gwasanaeth cartref gofal, er gwaethaf paragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaethau cartrefi gofal)–

(a) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolyn—
- (i) mewn perthynas deuluol neu bersonol, a
- (ii) ar gyfer dim ystyriaeth fasnachol

(b) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolion am gyfnod o lai nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis neu am nifer o gyfnodau sy'n gyfanswm o lai nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis;

(c) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio, pan fo'r llety wedi ei freinio—
- (i) yng Ngweinidogion Cymru at ddibenion eu swyddogaethau o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
- (ii) mewn ymddiriedolaeth GIG;
- (iii) mewn Bwrdd Iechyd Lleol.

(d) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu—
- (i) gan sefydliad o fewn y sector addysg bellach; neu
- (ii) gan brifysgol.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys os yw nifer y personau y darperir y llety hwnnw iddynt yn fwy na degfed ran o nifer y myfyrwyr y mae'n darparu addysg a llety iddynt.

At ddibenion y paragraff hwn, mae i "sector addysg bellach" yr un ystyr â "further education sector" yn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

(e) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r gofal a ddarperir yn gyfystyr â gwarchod plant o fewn ystyr adran 19(2), neu ofal dydd o fewn ystyr adran 19(3), o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys os—
- (i) mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, oes 28 neu ragor o gyfnodau o 24 awr y darperir mwy na 15 awr o ofal dydd ynddynt mewn perthynas ag unrhyw un plentyn;
- (ii) yw'r llety wedi ei ddarparu i blentyn anabl.

(f) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo’r llety wedi ei ddarparu i blant 16 oed a throsodd a dim ond at ddibenion galluogi’r plant i ymgymryd â hyfforddiant neu brentisiaeth. Ond nid yw’r eithriad hwn yn gymwys os darperir gofal yn gyfan gwbl neu’n bennaf ar gyfer plant anabl;

(g) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo’r llety wedi ei ddarparu i blant mewn hostel fechnïaeth a gymeradwyir neu hostel brawf a gymeradwyir;

(h) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo’r llety yn sefydliad i droseddwyr ifanc a ddarperir o dan neu yn rhinwedd adran 43(1) o Ddeddf Carchardai 1952:

(i) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo’r llety wedi ei ddarparu i blant ...at ddibenion—

(i) gwyliau;
(ii) gweithgaredd hamdden, adloniant, chwaraeon, diwylliannol neu addysgol;

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys:

(i) mewn unrhyw achos pan fo gofal yn cael ei ddarparu yn gyfan gwbl neu’n bennaf ar gyfer plant anabl oni bai bod y darparwr gwasanaeth yn gyntaf wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig am y trefniadau;
(ii) os yw’r llety wedi ei ddarparu i unrhyw un plentyn am fwy nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, os nad yw’r llety ond wedi ei ddarparu i blant dros 16 oed;

(j) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, i un plentyn neu i grŵp o frodyr a chwiorydd gan berson yng nghartref y person hwnnw ei hunan a phan na fo gofal a llety yn cael eu darparu gan y person hwnnw am gyfanswm o fwy nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

(l) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolion mewn gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol. Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys oni bai bod y canlynol yn wir—

i) yr awdurdod lleol sy'n gwbl gyfrifol am ddarparu'r gofal canolraddol,
ii) caiff y gofal canolraddol ei ddarparu am gyfnod heb fod yn fwy nag 16 wythnos ar y tro i unrhyw oedolyn penodol.

(2) At ddibenion paragraff (1)(e), (f) ac (i) o'r rheoliad hwn, mae plentyn yn “anabl” os oes gan y plentyn anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010.

(3) Gweler rheoliad 5 am ystyr perthynas deuluol neu bersonol.

(4) Yn is-baragraff (1)(j) o'r rheoliad hwn, mae "grŵp o frodyr a chwiorydd" yn cynnwys brodyr a chwiorydd, a hanner brodyr a hanner chwiorydd.

(5) At ddibenion paragraff (1)(l) o'r rheoliad hwn—

ystyr "*gofal canolraddol*" yw'r ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolyn am gyfnod cyfyngedig at ddiben hybu gallu'r oedolyn i fyw'n annibynnol yn ei gartref ei hun drwy—

(a) osgoi ei dderbyn i ysbyty yn ddiangen,

(b) lleihau hyd unrhyw dderbyniad i'r ysbyty drwy alluogi ei ryddhau yn amserol,

(c) galluogi ei adferiad ar ôl ei ryddhau o'r ysbyty, neu

(d) atal neu ohirio'i dderbyn i wasanaeth cartref gofal.

ystyr "*gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol*" yw gwasanaeth sy'n darparu gofal canolraddol:

(a) a ddarperir gan awdurdod lleol i oedolyn yn unol â'i ddyletswyddau yn Rhan 2 neu 4 o Ddeddf 2014,
(b) pan fo'r llety a ddefnyddir at ddibenion y gofal canolraddol wedi ei freinio yn yr awdurdod lleol, a
(c) phan fo unrhyw ofal a chymorth wedi ei ddarparu gan wasanaeth cymorth cartref y mae'r awdurdod lleol wedi ei gofrestru i'w ddarparu.

**Gwasanaethau cymorth cartref**

**3.**—(1) Nid yw'r pethau a ganlyn i gael eu trin fel gwasanaeth cymorth cartref, er gwaethaf paragraff 8 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaethau cymorth cartref)—

(a) y ddarpariaeth o gymorth yn unig;
(b) y ddarpariaeth o ofal a chymorth i bedwar neu lai o unigolion ar unrhyw un adeg;
(c) y ddarpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer oedolyn—
    (i) mewn perthynas deuluol neu bersonol, a
    (ii) ar gyfer dim ystyriaeth fasnachol;
(d) y ddarpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer plentyn gan riant, perthynas neu riant maeth;

(e) y ddarpariaeth o ofal a chymorth gan ofalwr pan fo gofal a chymorth o'r fath yn cael ei ddarparu heb ymglymiad ymgymeriad sy'n gweithredu fel asiantaeth gyflogi neu fusnes cyflogi (o fewn yr ystyr a roddir i'r ymadroddion "employment agency" neu "employment business" gan adran 13 o Ddeddf Asiantaethau Cyflogi 1973), a phan fo'r gofalwr yn gweithio'n gyfan gwbl o dan gyfarwyddyd a rheolaeth trydydd parti cysylltiedig;
(f) trefniadau ar gyfer cyflenwi gofalwyr i ddarparwr gwasanaeth gan ymgymeriad sy'n gweithredu fel asiantaeth gyflogi neu fusnes cyflogi at ddiben darparu gwasanaeth rheoleiddiedig gan ddarparwr y gwasanaeth;
(g) y ddarpariaeth o ofal a chymorth pan fo'r gofal a'r cymorth wedi eu darparu gan berson sy'n rheoli carchar neu sefydliad carcharu tebyg arall;
(h) y ddarpariaeth o ofal nyrsio gan nyrs gofrestredig;
(i) y ddarpariaeth o ofal a chymorth gan Fwrdd Iechyd Lleol i ddiwallu anghenion sy'n gysylltiedig ag anghenion unigolion am ofal nyrsio.

(2) Ym mharagraff (1)(e) ac (f), ystyr "gofalwr" yw unigolyn sy'n darparu gofal i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

(3) Ym mharagraff (1)(e), ystyr "trydydd parti cysylltiedig" yw—

(a) unigolyn a chanddo gyfrifoldeb rhiant (o fewn ystyr "parental responsibility" yn adran 3 o
Ddeddf Plant 1989) ar gyfer plentyn y mae gofal a chymorth i gael eu darparu iddo;
(b) unigolyn a chanddo atwrneiaeth neu awdurdod cyfreithlon arall i wneud trefniadau ar ran yr unigolyn y mae gofal a chymorth i gael eu darparu iddo;
(c) grŵp o unigolion a grybwyllir naill ai yn is-baragraff (a) neu yn is-baragraff (b) sy'n gwneud trefniadau ar ran dim mwy na phedwar unigolyn a enwir y mae gofal a chymorth i gael eu darparu iddynt;
(d) ymddiriedolaeth a sefydlir at ddiben darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn a enwir.

(4) Gweler rheoliad 5 am ystyr perthynas deuluol neu bersonol.

**Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd**

(1) Nid yw'r pethau a ganlyn i gael eu trin fel gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, er gwaethaf paragraff 3 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd)—

(a) y ddarpariaeth o lety ar gyfer plant a'u rhieni pan fo'r llety wedi ei ddarparu mewn ysbyty(**1**);
(b) y ddarpariaeth o lety ar gyfer plant a'u rhieni pan fo'r llety wedi ei ddarparu mewn hostel neu mewn lloches rhag trais domestig;

---

(1) Mae "ysbyty" wedi ei ddiffinio ym mharagraff 9 o Atodlen 1 i'r Ddeddf ac yn cynnwys clinig annibynnol.

(c) mewn unrhyw achos arall, y ddarpariaeth o lety ar gyfer plant a'u rhieni sydd â'r prif ddiben o ddarparu llety ynghyd â gwasanaethau a chyfleusterau eraill i unigolion sy'n oedolion ac mae'r ffaith y gall yr unigolion hynny fod yn rhieni, neu y gall eu plant fod gyda hwy, yn ail i'r prif ddiben o ddarparu'r llety.

**Gwasanaethau Mabwysiadu**

(1) Nid yw'r gwasanaethau a ganlyn i'w trin fel gwasanaeth mabwysiadu, er gwaethaf paragraff 4 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaeth mabwysiadu)—

- (a) darparu gwasanaeth mewn perthynas â mabwysiadu gan berson, yng nghwrs gweithgaredd cyfreithiol (o fewn yr ystyr a roddir i "legal activity" yn Neddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007), sy'n—
  - (i) person awdurdodedig at ddibenion y Ddeddf honno, neu
  - (ii) cyfreithiwr Ewropeaidd (o fewn yr ystyr a roddir i "European lawyer" yng Ngorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Gwasanaethau Cyfreithwyr) 1978;
- (b) darparu gwasanaethau i alluogi grwpiau o blant mabwysiadol, rhieni mabwysiadol a rhieni geni neu gyn-warcheidwaid plentyn mabwysiadol i drafod materion sy'n ymwneud â mabwysiadu;
- (c) darparu gofal seibiant i blentyn mabwysiadol neu riant mabwysiadol gan wasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref y mae person wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef o dan bennod 2 o Ran 1 o'r Ddeddf;
- (d) darparu gofal seibiant mewn perthynas â phlentyn mabwysiadol sy'n cynnwys gwarchod plant neu ofal dydd o fewn yr ystyr yn Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac y mae person wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef ar gyfer gwarchod plant neu ofal dydd o dan y Rhan honno o'r Mesur hwnnw;
- (e) darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan berson sy'n darparu'r gwasanaethau hynny—
  - (i) ac eithrio mewn partneriaeth ag eraill, a
  - (ii) o dan gontract ar gyfer gwasanaethau gyda—
  - (aa) gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig, neu
  - (bb) gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol.

(2) Ym mharagraff (1)(e), nid yw person yn cynnwys y lluosog ac nid yw'n gorff corfforaethol.

**Gwasanaethau Eirioli**

Ond nid yw gwasanaeth y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn wasanaeth eirioli—

(a) os yw'n cael ei ddarparu gan berson yng nghwrs gweithgaredd cyfreithiol o fewn yr ystyr a roddir i "legal activity" yn Neddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 gan berson sy'n—
  (i) person awdurdodedig at ddibenion y Ddeddf honno, neu
  (ii) cyfreithiwr Ewropeaidd (o fewn yr ystyr a roddir i "European lawyer" yng Ngorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Gwasanaethau Cyfreithwyr) 1978);

(b) os yw'r cynhorthwy yn cael ei ddarparu gan swyddog achosion teuluol Cymreig yng nghwrs cyflawni swyddogaethau mewn perthynas ag achosion teuluol;

(c) os yw'r cynhorthwy yn cael ei ddarparu gan Gomisiynydd Plant Cymru neu gan aelod o staff Comisiynydd Plant Cymru;

(d) os yw'n cael ei ddarparu gan berson nad yw wedi darparu nac yn bwriadu darparu eiriolaeth i fwy na 4 person o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis;

(e) i'r graddau y mae'n cael ei ddarparu gan berthynas neu gyfaill i'r person y cyflwynir sylwadau ar ei ran neu y bwriedir cyflwyno sylwadau ar ei ran.

(3) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae i'r geiriau a'r ymadroddion a ganlyn yr ystyron a roddir iddynt—
  (i) ystyr "perthynas" yw rhiant neu berson arall a chanddo gyfrifoldeb rhiant, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (pa un ai drwy briodas neu bartneriaeth sifil), tad-cu/taid neu fam-gu/nain, llys-riant, rhiant maeth neu ddarpar fabwysiadydd y lleolir y plentyn gydag ef neu hi;
  (ii) mae i "achosion teuluol" yr ystyr a roddir i "family proceedings" gan adran 12 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000;
  (iii) mae i "swyddog achosion teuluol Cymreig" yr un ystyr â "Welsh family proceedings officer" yn adran 35(4) o Ddeddf Plant 2004;
  (iv) mae "grŵp o frodyr a chwiorydd" yn cynnwys brodyr a chwiorydd a hanner brodyr a hanner chwiorydd; a

(b) wrth benderfynu a yw person wedi darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth eirioli i fwy na 4 person at ddiben paragraff (2)(d), mae darparu eiriolaeth i grŵp o frodyr a chwiorydd yn cael ei gyfrif fel darparu eiriolaeth i un person.

**Gwasanaethau Preswyl Ysgol Arbennig**

Nid yw llety ynghyd â gofal neu nyrsio a ddarperir mewn ysgol arbennig yng Nghymru ar gyfer disgyblion yn wasanaeth preswyl ysgol arbennig os y'i darperir—

- mewn man lle y darperir gwasanaeth cartref gofal,
- mewn man lle y darperir gwasanaeth llety diogel, neu
- mewn ysbyty

## Atodiad 13. Cymhwysedd Unigolyn Cyfrifol (a.21 o'r Ddeddf)

(1) Yn y Rhan hon, ystyr *“unigolyn cyfrifol”* yw unigolyn—

(a) sy’n gymwys i fod yn unigolyn cyfrifol o dan is-adran (2),
(b) y mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei fod yn berson addas a phriodol i fod yn unigolyn cyfrifol (gweler adran 9), ac
(c) sydd wedi ei ddynodi gan ddarparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â man y mae’r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef ac a bennir felly yng nghofrestriad y darparwr gwasanaeth.

(2) I fod yn gymwys i fod yn unigolyn cyfrifol rhaid i’r unigolyn—

(a) pan fo’r darparwr gwasanaeth yn unigolyn, fod y darparwr gwasanaeth;
(b) pan fo’r darparwr gwasanaeth yn bartneriaeth, fod yn un o’r partneriaid;
(c) pan fo’r darparwr gwasanaeth yn gorff corfforaethol ac eithrio awdurdod lleol—
  (i) bod yn gyfarwyddwr neu’n swyddog tebyg yn y corff,
  (ii) yn achos cwmni cyfyngedig cyhoeddus, fod yn gyfarwyddwr neu’n ysgrifennydd yn y cwmni, neu
  (iii) yn achos corff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, fod yn aelod o’r corff;
(d) pan fo’r darparwr gwasanaeth yn gorff anghorfforedig, fod yn aelod o’r corff;
(e) pan fo’r darparwr gwasanaeth yn awdurdod lleol, fod yn swyddog yn yr awdurdod lleol a ddynodir gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod.

(3) At ddibenion is-adran (2)(e), dim ond os yw cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn meddwl bod gan swyddog y profiad a’r arbenigedd angenrheidiol i fod yn unigolyn cyfrifol y caiff ddynodi’r swyddog hwnnw.

(4) Caniateir i’r un unigolyn cyfrifol gael ei ddynodi mewn cysylltiad â mwy nag un man y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef.

## Atodiad 14. Prawf person addas a phriodol (a.9 o'r Ddeddf)

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru o ran a yw—

(a) darparwr gwasanaeth
(b) person sy'n gwneud cais i fod yn ddarparwr gwasanaeth,
(c) unigolyn cyfrifol, neu
(d) person sydd i'w ddynodi'n unigolyn cyfrifol,
yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth neu, yn ôl y digwydd, unigolyn cyfrifol.

(2) Wrth wneud penderfyniad o'r fath rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r holl faterion sy'n briodol yn eu barn hwy.

(3) Yn benodol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw dystiolaeth sy'n dod o fewn is-adrannau (4) i (8).

(4) Mae tystiolaeth yn dod o fewn yr is-adran hon os yw'n dangos bod y person wedi—

(a) cyflawni—
   (i) unrhyw drosedd sy'n ymwneud â thwyll neu anonestrwydd arall, trais, arfau tanio neu gyffuriau neu unrhyw drosedd sydd wedi ei rhestru yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p.42) (troseddau sydd â gofynion hysbysu),
   (ii) trosedd o dan y Ddeddf hon neu reoliadau a wneir odani,
   (iii) trosedd o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14) neu reoliadau a wneir odani, neu
   (iv) unrhyw drosedd arall sy'n berthnasol ym marn Gweinidogion Cymru, neu
(b) aflonyddu ar rywun, neu wahaniaethu'n anghyfreithlon, ar sail unrhyw nodwedd sy'n nodwedd warchodedig o dan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p.15), neu wedi erlid person arall yn groes i'r Ddeddf honno, wrth gynnal unrhyw fusnes neu mewn cysylltiad â hynny.

(5) Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw'n dangos bod unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â'r person neu a oedd yn gysylltiedig â'r person gynt (pa un ai ar sail bersonol, ar sail gwaith neu ar sail arall) wedi gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau a nodir yn is-adran (4), a
(b) os ymddengys i Weinidogion Cymru fod y dystiolaeth yn berthnasol wrth ystyried a yw'r person yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth neu, yn ôl y digwydd, yn unigolyn cyfrifol.

(6) Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon os yw’n dangos bod y person wedi bod yn gyfrifol am gamymddwyn neu gamreoli, neu wedi cyfrannu ato neu wedi ei hwyluso, wrth ddarparu—

(a) gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth a ddarperir y tu allan i Gymru a fyddai’n wasanaeth rheoleiddiedig pe bai’n cael ei ddarparu yng Nghymru;
(b) gwasanaeth a fyddai wedi dod o fewn paragraff (a) pe bai’r system reoleiddiol sydd wedi ei sefydlu gan y Rhan hon wedi bod yn weithredol ar yr adeg pan oedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

(7) Wrth roi sylw i dystiolaeth o fewn is-adran (6), rhaid i Weinidogion Cymru, ymhlith pethau eraill, ystyried—

(a) pa mor ddifrifol yw’r camymddwyn neu’r camreoli ac am ba hyd y bu’n digwydd;
(b) niwed a achoswyd i unrhyw berson, neu unrhyw dystiolaeth o fwriad i achosi niwed;
(c) unrhyw fantais ariannol a enillwyd gan y person;
(d) unrhyw gamau a gymerwyd gan y person i unioni’r camymddwyn neu’r camreoli.


(8) Mae tystiolaeth o fewn yr is-adran hon os yw’n dangos bod y person wedi methu’n flaenorol â chydymffurfio—

(a) ag ymgymeriad a roddir o dan adran 7(1)(a)(ii) neu 11(3)(a)(ii),
(b) ag amod a osodir o dan y Rhan hon, neu
(c) â gofyniad a osodir gan reoliadau o dan adran 27(1) neu 28(1).


(9) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio’r adran hon i amrywio’r dystiolaeth y mae rhaid iddynt roi sylw iddi.

## Atodiad 15. Canllaw ar actifadu eich cyfrif AGC Ar-lein

Dechreuwch drwy fewngofnodi i'ch cyfrif AGC Ar-lein. Pan fyddwch wedi mewngofnodi, cliciwch ar eich enw defnyddiwr (yn y gornel dde uchaf)





Dewiswch 'Actifadu' o'r gwymplen.





Byddwch wedi cael PIN Actifadu naill ai yn ystod y broses gofrestru neu ar ôl i'ch gwasanaeth gael ei gofrestru.

Rhowch eich rhif 'PIN Actifadu' a'ch 'Dyddiad Geni' a phwyswch 'Actifadu'.




Pan fyddwch wedi actifadu eich cyfrif yn llwyddiannus, byddwch yn gweld neges yn cadarnhau bod eich cyfrif wedi'i actifadu yn llwyddiannus.




Os byddwch yn cael unrhyw anawsterau wrth actifadu eich cyfrif neu os nad ydych wedi cael PIN Actifadu, cysylltwch â'n Tîm Cofrestru ar **0300 7900 126**.

## Atodiad 16. Gwybodaeth a dogfennau sydd eu hangen ar gyfer ceisiadau i amrywio

### 1. Ychwanegu gwasanaeth

| **Gwybodaeth am y gwasanaeth** | |
|---|---|
| **Gwasanaethau seiliedig ar lety**<br><br>**(gwasanaethau cartrefi gofal, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig)** | Enw<br>Cyfeiriad<br>Manylion cyswllt<br>Uchafswm nifer y lleoedd yn y gwasanaeth<br>Ystod oedran yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth<br>Yr amrywiaeth o anghenion rydych yn bwriadu darparu gwasanaeth ar eu cyfer<br>Rheolwr y gwasanaeth, gan gynnwys ei enw, ei ddyddiad geni, a'i rif cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Datganiad o Ddiben |
| **Gwasanaethau cymunedol (gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli)** | Enw<br>Yr ardal ddaearyddol lle rydych yn bwriadu darparu'r gwasanaeth<br>Cyfeiriad(au) swyddfa<br>Manylion cyswllt<br>Ystod oedran yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth (lle y bo'n briodol)<br>Yr amrywiaeth o anghenion rydych yn bwriadu darparu gwasanaeth ar eu cyfer (lle y bo'n briodol)<br>Nifer cyfartalog yr oriau o gymorth cartref rydych yn bwriadu eu darparu bob wythnos (lle y bo'n briodol)<br><br>Rheolwr y gwasanaeth, gan gynnwys ei enw, ei ddyddiad geni, a'i rif cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (lle y bo'n briodol) |

| Gwybodaeth am yr Unigolyn Cyfrifol | Gall lefel y wybodaeth sydd ei hangen amrywio yn dibynnu ar b'un a yw'r unigolyn eisoes yn Unigolyn Cyfrifol ar gyfer gwasanaeth arall sy'n rhan o gofrestriad Darparwr y Gwasanaeth. |
|---|---|
| **Unigolyn** | Enw<br>Cyfeiriad<br>Dyddiad geni<br>Manylion cyswllt<br>Profiad a chymwysterau proffesiynol<br>Hanes cyflogaeth<br>Manylion unrhyw gysylltiad blaenorol neu bresennol â gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU<br>Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill<br>Rhif tystysgrif/manylion Gwasanaeth Diweddaru y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |

## 2. Dynodi Unigolyn Cyfrifol newydd

| Gwybodaeth am yr Unigolyn Cyfrifol | Gall lefel y wybodaeth sydd ei hangen amrywio yn dibynnu ar b'un a yw'r unigolyn eisoes yn Unigolyn Cyfrifol ar gyfer gwasanaeth arall sy'n rhan o gofrestriad Darparwr y Gwasanaeth. |
|---|---|
| **Unigolyn** | Enw<br>Cyfeiriad<br>Dyddiad geni<br>Manylion cyswllt<br>Profiad a chymwysterau proffesiynol<br>Hanes cyflogaeth<br>Manylion unrhyw gysylltiad blaenorol neu bresennol â gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU<br>Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill<br>Rhif tystysgrif/manylion Gwasanaeth Diweddaru y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |

3. Dileu'r Unigolyn Cyfrifol ar gyfer gwasanaeth hwn

| Cwestiwn | Gorfodol/Dewisol |
|---|---|
| **O ba ddyddiad na fydd yr unigolyn yn cyflawni'r rôl hon mwyach?** | Gorfodol |
| **Rheswm dros yr amrywiad** | Gorfodol |
| **Unrhyw wybodaeth arall** | Dewisol |
| **A yw'r unigolyn hwn yn gadael y sefydliad?** | Gorfodol |

4. Amrywio uchafswm nifer y bobl y gellir darparu ar eu cyfer yn y gwasanaeth

| Uchafswm nifer y bobl y gellir darparu ar eu cyfer yn y gwasanaeth ar hyn o bryd yw |
|---|
| **Uchafswm nifer arfaethedig y bobl rydych yn bwriadu darparu ar eu cyfer yn y gwasanaeth hwn yw** |
| **Rhowch grynodeb o'r rhesymau pam rydych yn gwneud cais i newid nifer y bobl y gellir darparu ar eu cyfer yn y gwasanaeth** |
| **Y dyddiad arfaethedig y daw'r newid hwn yn weithredol** |
| **Lanlwythwch gopi o'ch Datganiad o Ddiben diwygiedig** |
| **Lanlwythwch unrhyw ddogfennau ategol ychwanegol i gefnogi eich cais** |
| **Unrhyw wybodaeth arall** |

5. Dileu gwasanaeth o gofrestriad Darparwr y Gwasanaeth

| A yw'r gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo i ddarparwr newydd? |
|---|
| **Beth yw enw'r sefydliad/unigolyn sy'n ei brynu?** |
| **Beth yw'r trefniadau a'r amserlenni sydd ar waith ar hyn o bryd i gwblhau'r broses o drosglwyddo'r gwasanaeth i'r darparwr newydd?** |
| **O ba ddyddiad y dylid dileu'r gwasanaeth o gofrestriad y darparwr?** |

| |
|---|
| Rheswm dros yr Amrywiad |
| Manylion yr Amrywiad |
| Rhowch grynodeb o'r ffordd y byddwch yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 hyd at y dyddiad cau. |
| Manylion y Rhybudd a Roddwyd |
| A ydych wedi rhoi gwybod i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth am eich bwriad i ddileu'r gwasanaeth hwn o'ch cofrestriad? |
| Dyddiad y rhoddwyd gwybod i ddefnyddwyr y gwasanaeth |
| *Rhowch grynodeb o'r rhesymau pam nad ydych wedi rhoi gwybod i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth |
| A ydych wedi rhoi gwybod i deuluoedd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth am eich bwriad i ddileu'r gwasanaeth hwn o'ch cofrestriad? |
| Dyddiad y rhoddwyd gwybod i aelodau teulu |
| *Rhowch grynodeb o'r rhesymau pam nad ydych wedi rhoi gwybod i deuluoedd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth |
| A ydych wedi rhoi gwybod i'r comisiynwyr am eich bwriad i ddileu'r gwasanaeth hwn o'ch cofrestriad? |
| Dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r comisiynwyr |
| *Rhowch grynodeb o'r rhesymau pam nad ydych wedi rhoi gwybod i'r comisiynwyr |
| Unrhyw wybodaeth arall |
| * Dim ond os na roddwyd gwybod i'r partïon perthnasol y bydd y cwestiynau hyn yn ymddangos. |

## Atodiad 17. Cyfweld ag Unigolion Cyfrifol

**Pryd y bydd angen cynnal cyfweliad ag Unigolyn Cyfrifol:**

- Ar gyfer pob cais cyntaf newydd
- Ar gyfer pob cais amrywio i ychwanegu Unigolyn Cyfrifol newydd ar gyfer gwasanaeth(au) presennol
- Ar gyfer pob cais amrywio i ychwanegu gwasanaeth ar gyfer darparwyr gwasanaethau presennol lle mae pryderon ynglŷn â chydymffurfiaeth neu drosolwg mewn perthynas â'r gwasanaeth(au) ar hyn o bryd)
- Ym mhob achos lle mae'r Unigolyn Cyfrifol newydd a enwebwyd yn swyddog tebyg yn y sefydliad
- Ym mhob achos lle ceir unrhyw bryderon o ran gallu'r Unigolyn Cyfrifol i gyflawni'r rôl mewn perthynas â nifer cynyddol o wasanaethau,
- Mewn unrhyw achos lle bydd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr Unigolyn Cyfrifol a enwebwyd yn arwain at ganlyniad positif nad yw wedi'i drafod yn flaenorol ag AGC

**Os na fydd unrhyw un o'r uchod yn berthnasol, efallai y byddwn yn penderfynu na fydd angen cyfweld ag Unigolyn Cyfrifol ar yr amod:**

- bod AGC wedi cyfweld â'r person a enwebwyd yn Unigolyn Cyfrifol ac wedi ei gymeradwyo yn ystod y 12 mis blaenorol mewn perthynas â'r darparwr gwasanaeth cymeradwy perthnasol.

## Atodiad 18. Matrics penderfynu o ran a ddylid cynnal ymweliad cofrestru safle ai peidio

### Gwasanaethau seiliedig ar lety

Gall ymweliadau â gwasanaethau a ddefnyddir fod yn destun Asesiad Risg, ac mewn rhai achosion, gellir cynnal asesiad rhithwir o'r safle.

| Math o gais | A oes angen cynnal ymweliad? | ffactorau i'w hystyried os ystyrir bod ymweliad yn llai tebygol |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth anghofrestredig yn flaenorol** | OES | |
| **Cynyddu uchafswm nifer y bobl**<br>• Estyniad i'r adeilad<br>• Gwaith addasu neu adnewyddu<br>• Cafodd yr ystafelloedd ychwanegol eu gweld yn flaenorol a'u hystyried yn addas ond nad oeddent yn cael eu defnyddio. | <br>OES<br>OES<br><br>LLAI TEBYGOL | Cynlluniau llawr, mesuriadau, yr adroddiad arolygu diweddaraf, trafodaeth â'r arolygydd ardal. Gwybodaeth ysgrifenedig am y cyfleusterau, os oes ymholiadau. |
| **Darparwr Gwasanaeth Cofrestredig sy'n caffael gwasanaeth cofrestredig:**<br>• Cynhaliwyd arolygiad yn ystod y 12 mis blaenorol cyn cyflwyno'r cais ac nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth na phryderon wedi codi mewn perthynas â'r amgylchedd. Mae'r holl ddogfennaeth a gyflwynwyd yn foddhaol<br>• Materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth a/neu bryderon mewn perthynas â'r amgylchedd a/neu mae'r | LLAI TEBYGOL<br><br>MWY TEBYGOL | Yr adroddiad arolygu diweddaraf.<br>Trafodaeth â'r arolygydd ardal.<br>Hanes gwasanaethau ychwanegol y gall y darparwr fod yn eu darparu.<br>Cadarnhad gan y darparwr presennol o unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd ers y cofrestriad gwreiddiol.<br>Adborth gan yr arolygydd ardal mewn perthynas â'r canlynol: materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| darparwr presennol yn cadarnhau bod newidiadau wedi'u gwneud ers y cofrestriad cychwynnol a/neu mae dogfennaeth yn codi pryderon a/neu bryderon yn dilyn trafodaeth â'r Unigolyn Cyfrifol.<br>• Cynnydd yn y niferoedd ers cofrestriad presennol Darparwr y Gwasanaeth | OES | amgylcheddol, camau a gymerwyd, canlyniad y pryderon a godwyd mewn perthynas â'r amgylchedd a dyddiad yr arolygiad nesaf. |
| **Gwasanaeth cofrestredig yn newid Darparwr Gwasanaeth** | LLAI TEBYGOL | Trafodaeth â'r arolygydd ardal, Hanes cydymffurfiaeth. Cadarnhad gan y darparwr presennol o unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd ers y cofrestriad gwreiddiol. |

**Gwasanaethau nad ydynt yn seiliedig ar lety (Gwasanaethau Cymorth Cartref, Gwasanaethau Mabwysiadu, Gwasanaethau Maethu, Gwasanaethau Lleoli Oedolion a Gwasanaethau Eirioli)**

| | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth anghofrestredig yn flaenorol**<br>• Uned fasnachol yw'r safle<br>• Nid uned fasnachol yw'r safle – cyfeiriad personol/cartref gofal ac ati | LLAI TEBYGOL<br>OES | Cytundeb les.<br>Rhestr wirio a gwblhawyd gan y darparwr yn cadarnhau gwybodaeth am addasrwydd y safle. |
| **Darparwr Gwasanaeth yn ychwanegu gwasanaeth anghofrestredig**<br>• Uned fasnachol yw'r safle<br>• Nid uned fasnachol yw'r safle – cyfeiriad personol/cartref gofal ac ati | LLAI TEBYGOL<br>OES | Cytundeb les.<br>Rhestr wirio a gwblhawyd gan y darparwr yn cadarnhau gwybodaeth am addasrwydd y safle.<br>Trafodaeth â'r arolygydd ardal. |
| **Gwasanaeth cofrestredig yn newid Darparwr Gwasanaeth** | LLAI TEBYGOL | Yr adroddiad arolygu diwethaf.<br>Trafodaeth â'r arolygydd ardal.<br>Hanes gwasanaethau ychwanegol y gall y darparwr fod yn eu darparu. |

**Ym mhob achos, dim ond rhan o'r penderfyniad o ran a ddylid cynnal ymweliad fydd hyn.** Caiff pob cais ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun ac ystyrir yr holl wybodaeth sydd ar gael.

## Atodiad 18a. Asesiad o leoliad ar gyfer cartrefi i blant sy'n derbyn gofal

**<u>Templed asesiad o leoliad enghreifftiol AGC ar gyfer cartref gofal i blant.</u>**

# Er mwyn dangos eich bod wedi cynnal asesiad trylwyr o leoliad arfaethedig eich cartref gofal i blant, dylech ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

| |
|---|
| Dywedwch wrthym am unrhyw ymgynghori rhyngoch chi a'r comisiynwyr lleol a rhanbarthol perthnasol, ac adrannau cynllunio awdurdodau lleol, i ddangos eich bod wedi ystyried lleoliad y cartref mewn perthynas â'r galw tebygol am y gwasanaeth yn ardaloedd yr awdurdodau lleol perthnasol a'r is-ranbarth/rhanbarth ehangach. |
| |
| Dywedwch wrthym am unrhyw ymgynghori rhyngoch chi a'r comisiynwyr lleol a rhanbarthol perthnasol, ac adrannau cynllunio awdurdodau lleol, i ddangos eich bod wedi ystyried lleoliad y cartref mewn perthynas â'r galw tebygol am y gwasanaeth yn ardaloedd yr awdurdodau lleol perthnasol a'r is-ranbarth/rhanbarth ehangach. |
| |

| |
|---|
| Nodwch y nodweddion sydd ar gael yn y gymuned leol a fyddai o fudd i'r plant, fel cyfleusterau hamdden, chwaraeon, gweithgareddau diwylliannol a chysylltiadau trafnidiaeth |
| |

| |
|---|
| Nodwch sut y bydd y plant yn gallu manteisio ar wasanaethau addysg a gofal iechyd perthnasol yn unol â model / datganiad o ddiben eich gwasanaeth. |
| |

| |
|---|
| Nodwch sut y bydd y gwasanaeth yn helpu'r plant i fanteisio ar wasanaethau ac adnoddau a fyddai'n cefnogi eu hunaniaeth ddiwylliannol neu ethnig. Sut y byddwch yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? |
| |

| Sut ydych chi wedi ystyried addasrwydd y gymuned leol fel lleoliad ar gyfer gofalu am blant sydd efallai wedi dioddef o gamdriniaeth neu esgeulustod? |
| --- |
| |

| Sut ydych chi wedi ystyried os yw lleoliad y cartref yn<br>• Cynyddu potensial plentyn sydd eisioes yn fregus i fod yn ddioddefwr o drosedd megis cael ei dargedu ar gyfer ecsbloetio rhywiol neu ffyrdd eraill o ecsbloetio, neu<br>• A yw'n debygol y bydd plant sy'n byw yn y cartref yn cael eu denu i gyflawni troseddau mewn gangiau neu i ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol yn yr ardal leol? |
| --- |
| |

| Dywedwch wrthym sut rydych wedi ystyried unrhyw ffactorau eraill yn yr amgylchedd lleol a fyddai'n cyflwyno perygl i blant, fel cronfeydd dŵr, ffyrdd prysur, llinellau rheilffordd ac ati, a sut rydych yn bwriadu lliniaru'r risgiau hyn. |
| --- |
| |

**Gallwch hefyd lanlwytho unrhyw asesiadau risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r canfyddiadau uchod fel rhan o'ch cais.**

## Atodiad 19. Goblygiadau cofrestru ag AGC i sefydliadau sy'n is-gontractio'r gwaith o ddarparu gofal i drydydd parti

### Ein dull o ymdrin â cheisiadau i gofrestru

Fel rhan o'n prosesau cofrestru, rydym yn sicrhau bod yr endid (endidau) cyfreithiol cywir sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth wedi'i gofrestru/wedi'u cofrestru. Mewn achosion lle mae un endid cyfreithiol yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth, bydd Darparwr y Gwasanaeth wedi'i gofrestru fel endid cyfreithiol unigol. Os bydd mwy nag un endid cyfreithiol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth, bydd angen i'r endidau cyfreithiol hyn gofrestru ar y cyd fel Darparwr Gwasanaeth.

Er mwyn sicrhau ein bod yn dwyn y cwmni/cwmnïau cywir i gyfrif am y gofal a ddarperir, rydym yn cofrestru'r rhai sy'n **cyfarwyddo, yn rheoli ac yn gyfrifol am ansawdd a diogelwch gwasanaeth.** Mae hyn yn ein galluogi i gymryd camau yn erbyn y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gofal a ddarperir o ansawdd uchel ac yn bodloni gofynion rheoliadau.

### Beth yw amnewid contract?

Amnewid contract yw pan fydd Darparwr Gwasanaeth yn dymuno newid ei gydberthynas gontractiol ag awdurdod lleol drwy drosglwyddo'r cyfrifoldebau a'r buddiannau i drydydd parti. Yn aml, bydd hyn yn cynnwys cwmni rheoli yn ymrwymo i gontractau â'r awdurdod lleol, gan is-gontractio'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig i drydydd parti.

Bydd angen i ni sicrhau nad yw'r trefniadau hyn yn newid yr endid neu endidau cyfreithiol sy'n darparu'r gwasanaeth ac, felly, cofrestriad Darparwr y Gwasanaeth.

### Sut mae AGC yn asesu pa endid cyfreithiol y mae angen iddo gofrestru?

Er mwyn penderfynu pa endid neu endidau cyfreithiol sy'n darparu'r gwasanaeth, rydym yn gofyn nifer o gwestiynau i ddarparwyr, er enghraifft:

- Pwy sy'n berchen ar y safle (lle y bo'n gymwys)?
- Pa endid cyfreithiol sy'n ymrwymo i gontractau cyflogaeth â'r staff?
- Yn enw pa endid cyfreithiol y mae'r yswiriannau atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus?
- Pa endid cyfreithiol sy'n atebol am unrhyw rwymedigaethau a all godi?
- A yw pob endid cyfreithiol yn recriwtio staff yn annibynnol neu ar y cyd?
- Pa endid cyfreithiol sy'n cyflogi neu'n ymgysylltu â staff sydd:
    - yn darparu gofal
    - yn rheoli'r gofal a ddarperir,
    - y goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir?
- Pa endid cyfreithiol sy'n rheoli'r swyddogaethau craidd – er enghraifft hyfforddiant, datblygiad staff, prosesau rheoli cofnodion?
- A yw'r endidau cyfreithiol yn rhannu'r gwaith o reoli'r broses o lunio rotas, cynnal sesiynau goruchwylio a/neu hyfforddiant o ddydd i ddydd?

- A yw pob endid cyfreithiol yn ymrwymo i gontractau â chleientiaid yn annibynnol neu ar y cyd?
- Pa endid cyfreithiol sy'n ymrwymo i gontractau â chomisiynwyr neu gwsmeriaid a ariennir yn breifat?
- Lle y darperir ffioedd ychwanegol, pa endid cyfreithiol sy'n codi tâl ar y cwsmer?
- A yw'r endid cyfreithiol sy'n darparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig yn uniongyrchol yn annibynnol yn ariannol, neu ai endid arall sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ariannol a phenderfyniadau am adnoddau?
- Pa endid cyfreithiol sy'n gwneud penderfyniadau am leoliadau neu addasrwydd y gwasanaeth i berson?
- Pa endid cyfreithiol sy'n gwneud penderfyniadau am brynu nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen i sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu diwallu, fel tanwydd, gwasanaethau TG, cyfleustodau, gwasanaethau glanhau?

Hefyd, efallai y byddwn yn gofyn i ddarparwyr gyflwyno dogfennau, er enghraifft:

- Unrhyw gytundeb gwasanaeth rhwng cwmnïau i ddangos y cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i'r priod endidau cyfreithiol mewn perthynas â darparu gofal,
- Yr is-gontract â'r trydydd parti.

Bydd y Tîm Cofrestru yn ystyried yr atebion i'r cwestiynau uchod er mwyn penderfynu pa endid/endidau cyfreithiol sy'n cyfarwyddo, yn rheoli ac yn bennaf cyfrifol am ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Lle y bo angen, byddwn yn ceisio cyngor cyfreithiol i'n helpu i ddod i benderfyniad.

**Beth yw goblygiadau cofrestru?**

**Ar gyfer gwasanaethau newydd**

Os penderfynir bod endidau cyfreithiol ar y cyd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth, bydd angen cais cofrestru ar y cyd. Dylai darparwyr geisio cyngor gan y Tîm Cofrestru cyn cyflwyno cais.

**Ar gyfer gwasanaethau cofrestredig**

Os penderfynir bod endid cyfreithiol gwahanol neu endidau cyfreithiol ar y cyd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth, bydd angen cais newydd i gofrestru.

Anogir darparwyr i geisio cyngor ar gofrestru gan AGC cyn amnewid contractau ag awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau nad yw'r endid cyfreithiol yn dechrau darparu gwasanaeth heb fod wedi'i gofrestru i wneud hynny.

Anogir awdurdodau lleol i gadarnhau â darparwyr fod unrhyw oblygiadau cofrestru ag AGC wedi'u hystyried ac i gysylltu â Thîm Cofrestru AGC am gadarnhad.

## Atodiad 20. Rhestr termau

### Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

*Disclosure and Barring Service*

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Bydd gwiriad safonol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dangos unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu, rhybuddion a cheryddon. Bydd gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dangos pob rhybudd a cherydd, yn ogystal ag euogfarnau wedi'u disbyddu a heb eu disbyddu. Gall hefyd chwilio drwy'r rhestrau o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed, er mwyn gweld a yw'r ymgeisydd wedi'i wahardd rhag gweithio gyda'r grwpiau hyn. Gall yr heddlu lleol ychwanegu unrhyw wybodaeth berthnasol am yr ymgeisydd.

### Gorfodi

*Enforcement*

Amrywiaeth o gamau a gymerir gan AGGCC yn erbyn darparwr gwasanaeth nad yw'n cydymffurfio a gofynion rheoliadol neu amodau ei gofrestriad. Gall hyn amrywio o gyhoeddi hysbysiadau diffyg cydymffurfio i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth.

### Person addas a phriodol

*Fit and proper person*

Rhywun y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn gymwys ac yn addas ar gyfer rôl darparwr gwasanaeth neu unigolyn cyfrifol. Gweler Atodiad 5 am y rhestr lawn.

### Arolygu

*Inspection*

Pan fydd yr arolygiaeth yn cadarnhau ac yn asesu safon y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth wrth ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig.

### Endid cyfreithiol

*Legal entity*

Mae hyn yn golygu unigolyn, cwmni neu sefydliad sydd â hawliau a rhwymedigaethau cyfreithiol.

**Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf")**

*Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016*

Deddfwriaeth sy'n cyflwyno system newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau a ddaw i rym ym mis Ebrill 2018 ac fydd yn gwbl weithredol erbyn mis Ebrill 2019.

**Rheoliadau**

*Regulations*

Yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i ddarparwyr ac unigolion cyfrifol eu bodloni er mwyn cofrestru i ddarparu gwasanaeth.

**Gwasanaeth(au) rheoleiddiedig**

*Regulated service(s)*

Yn cyfeirio at unrhyw rai o'r mathau o wasanaethau a ddiffinnir gan y Ddeddf, fel gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref.

**Unigolyn cyfrifol**

*Responsible individual*

Person a ddynodwyd gan ddarparwr gwasanaeth i weithredu ar ei ran mewn perthynas â gwasanaeth(au) cofrestredig.

**Gwasanaeth**

*Service*

Mae hyn yn cyfeirio at wasanaeth unigol. Yn achos cartrefi gofal, cartref gofal fyddai hwn, a ddarperir mewn lleoliad penodol. Yn achos gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaeth unigol fyddai hwn, a ddarperir mewn ardal benodol.

**Gofal Cymdeithasol Cymru**

*Social Care Wales*

Gofal Cymdeithasol Cymru yw rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n gosod safonau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, ac yn ei ddatblygu, gan ei wneud yn atebol am ei waith a darparu gwybodaeth am ofal a chymorth i'r cyhoedd, y gweithlu a sefydliadau eraill.

**Datganiad o Ddiben**

*Statement of Purpose*

Y Datganiad o Ddiben yw'r brif ddogfen sy'n nodi eich gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth a'r ffordd rydych yn bwriadu diwallu anghenion y bobl sy'n ei ddefnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae'n rhaid i'r Datganiad o Ddiben ei gynnwys, gweler ein canllawiau ar lunio Datganiad o Ddiben.

**Y Ddeddf**

*The Act*

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

**Deddf 2014**

*The 2014 Act*

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y ddeddfwriaeth hon yw'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.